

ECO'R WYDDFA

RHIF 342

MAWRTH 2007

PRIS 40c

Yn y Rhifyn Hwn:

- Dyddiadur can mlynedd
- Seren Seland Newydd yn hudo gwlad y gân!

CD newydd Elin Mai!

A hithau'n dathlu ei phen-blwydd yn bedair ar bymtheg oed ar Ddydd Gŵyl Dewi, mae cyhoeddi ei CD cyntaf yn anrheg cofiadwy i Elin Mai o Lanberis: carreg filltir arall yn ei gyrfa a hithau eisoes wedi profi sawl llwyddiant yn y byd eisteddfodol a cherddorol.

Mae'n aelod o Gôr Cenedlaethol Cymru ac o Gôr Seiriol, ac yn unawdydd gyda nifer o gorau'r ardal – yn eu plith, Côr Meibion Caernarfon a Chôr y Traeth. Hefyd mae wedi llwyddo i fod yn aelod o Opera Ieuencid Cenedlaethol Cymru eleni ac ar fin dechrau ymarfer ar gyfer opera newydd sbon, a fydd i'w gweld yng Nghanolfan y Mileniwm, Caerdydd, fis Gorffennaf. Does dim syndod felly iddi benderfynu cymryd dwy flynedd o seibiant cyn mynd i'r coleg!

Ond mae Elin cyn brysured ag erioed. Ers y Nadolig bu'n weithwraig gefnogol gyda chwmni Anheddau, sy'n galluogi pobl ag aghenion gofal i fyw yn y gymuned.

'Dwi'n mwynhau'r gwaith yn fawr,' meddai Elin, 'ac yn ddiolchgar iawn am y profiadau gwahanol a newydd 'dwi'n eu cael o ddydd i ddydd. 'Dwi'n gobeithio mynd i goleg y Guildhall yn Llundain y flwyddyn nesa ac mae cymryd dwy flynedd o seibiant yn gyfle i mi baratoi at hynny a chanolbwyntio ar fy nghanu.'

Casgliad o ffefrynnau Elin yw'r caneuon ar y CD – yn cynnwys clasuron fel 'Gwahoddiad' a 'Cartref'. Meddai Elin,

'Roedd recordio'r gryno ddisg yn brofiad hollol newydd imi. 'Dwi ddim wedi arfer efo pobol yn dweud wrtha i sut i



ganu a rheoli fy llais, ond mi ddes i arfer efo hynny'n ddigon buan! Mi wnes i fwynhau'r recordio'n fawr iawn yn stiwdio gartrefol Gwynfryn a 'dwi'n hapus iawn efo'r CD.'

Ydi, mae'r dyfodol yn un

disglair iawn ond mae traed Elin Mai yn gadarn ar y ddaear,

'Mi faswn i wrth fy modd yn dilyn gyrfa yn canu'n broffesiynol, meddai, 'ond anghofia i byth mai hogan o Lanbêr ydw i yn y bôn.'

E-bostiwrch yr Eco

Yn dilyn cyfarfod rhwng aelodau o bwyllgor yr Eco a'r tîm golygyddol yn ddiweddar, penderfynwyd sefydlu gwe bost ar gyfer yr Eco. Erbyn hyn mae nifer helaeth o'r erthyglau a ddaw i law'r Eco wedi eu geirbrosesu'n barod.

Mae'r e-bost yn ffynhonnell newydd i gysylltu â'r tîm golygyddol, ac yn llawer hwylusach gan na fydd angen ailbrosesu unrhyw ddeunydd a ddaw dros y we.

Dyma'r cyntaf o nifer o newidiadau cyffrous sydd ar y gweill er mwyn sicrhau datblygiad yr Eco.

Felly, os oes gennych chi stori, erthygl neu hanesyn i'w rannu â darllenwyr yr Eco, cysylltwch â ni trwy ebostio'r golygyddion ar storiau@ecorwyddfa.co.uk neu trwy eich ffyrdd arferol.



Chwarelwyr Dinorwig 1925

Does dim gwybodaeth am y llun hwn, ond mae oedran y bechgyn yn awgrymu mai prentisiaid oeddynt. Pwy oeddent a phwy oedd y dynion mewn oed oedd gyda hwy?

CYSTADLEUAETH

Os am ennill un o bedwar copi o CD Elin Mai, atebwch y cwestiwn canlynol:

Pwy yw awdur y gân enwog, 'Cartref'?

Gyrrwch eich ateb i:
Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon,
Nant Peris.

ECO'R WYDDFA

RHIF 342

MAWRTH 2007

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu i
Penarth

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA

Ymholiadau Golygyddol

Llinos Jones

01248 374 962

llynoshaf@hotmail.com

07733211332

Straeon ac erthyglau ar e-bost
storiau@ecorwyddfa.co.uk

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minalit, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minalit,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, 19 MAWRTH

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, 29 MAWRTH

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Ebrill	19 Mawrth	29 Mawrth	Cwm-y-glo	Iris Rowlands	872275

Llythyrau

Annwyl Gyfeillion

Llunio Dyfodol Eryri

Yn ddiweddar dechreuwyd ar y gwaith o baratoi rhai o gynlluniau mwyaf dylanwadol a phwysig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Bydd y cynlluniau hyn yn cynnwys polisiau, argymhellion, canllawiau a gweithgareddau fydd yn cael effaith sylweddol ar amgylchedd, cymdeithas ac economi Parc Cenedlaethol Eryri.

Hyd yn hyn rydym wedi bod yn trafod gyda budd-ddeiliaid y Parc, megis Cynghorau Sir Gwynedd a Bwrdeistref Conwy, asiantaethau statudol eraill, undebau amaethyddol, grwpiau twristiaeth, ysgolion a chynghorau cymuned, i enwi rhai. Rydym yn awyddus rwan fod trigolion lleol yn cael cyfle i leisio barn, felly, dros yr wythnosau nesaf fe fydd swyddogion o'r Awdurdod yn ymweld â chymunedau ledled Eryri i gyflwyno'r gwaith sydd eisoes wedi'i gyflawni ac i glywed eich sylwadau chi ar faterion megis amaethyddiaeth, tai, cludiant, ynni a threftadaeth.

Dewch i Ganolfan y Wardeniaid, Nant Peris, dydd Sadwrn, 24 Mawrth 2007, rhwng 12.00-8.00 yr hwyr i wybod mwy ac i roi eich barn dros baned.

Yn gywir

ANEURIN PHILLIPS

Prif Weithredwr

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Annwyl Olygyddion a darllenwyr yr Eco,

Diddorol oedd darllen y broliant am Lonydd Glas Gwynedd yn y rhifyn diwethaf o'r papur, a'r ffaith fod Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn ariannu gwaith gwella Lôn Menai a Lôn Eifion. Mae'n debyg mai'r prif reswm am wella'r lonydd glas hyn yw'r ffaith mai rhannau o Lwybr Cenedlaethol Rhif 8 ydynt. Dyna pam, mae'n debyg, nad oes crybwyll y mymryn llwybr sydd yn ein hardal ni, sef Lôn Las Peris, sy'n arwain o'r Glyn yn Llanberis i ... unlle.

Bu'r grŵp gwirfoddol Rhwydwaith Beicio Peris yn ymgyrchu am sawl blwyddyn i ymestyn y llwybr hwn ar hyd ochr y briffordd o geg y twnnel i Gwm y Glo, gan gynnwys rhoi wyneb caled arno a chael goleuo'r twnnel. Bwriad arall oedd newid statws y llwybr cyhoeddus o'r Fricsan i Ben Llyn (yr hen ffordd) er mwyn ei gwneud yn gyfreithlon i reidio beic arno, gyda'r gobaith o sefydlu llwybr diogel i Ysgol Cwm y Glo i blant a rhieni Brynrefail.

Gwnaethpwyd cais i'r Cynulliad yn 2002, ond deallwyd ar ddechrau 2003 na fu'n

llwyddiannus. Ni fu modd cael unrhyw adborth ynglŷn â gwendidau (os oedd rhai) y cais hwnnw. Yn y cyfamser, cafwyd addewid o Adran Briffyrdd Gwynedd fod tarmac i'w osod ar Lôn Las Peris. Erbyn diwedd 2003 mynegwyd cryn bryder ynglŷn â diogelwch o fewn y twnnel, yn enwedig wyneb y llwybr. Roedd cryn bwyso hefyd am gael gosod arwyddion ar ddeupen y llwybr gan nad oedd yn amlwg i lawer ei bod yn bosibl beicio ar ei hyd!

Rhaid cyfaddef fod yr ymateb o du gwahanol adrannau Cyngor Gwynedd i holl ymdrechion Rhwydwaith Beicio Peris wedi bod yn hynod ddi-hid. Bu'n rhaid ysgrifennu at benaethiaid adrannau yn aml am nad oedd eu swyddogion yn ateb gohebiaeth nac yn mynychu cyfarfodydd a drefnwyd. Roedd yn achos pryder hefyd fod Lôn Las Peris wedi bod dan ofal Adran Hamdden y Cyngor tra bod holl lonydd glas eraill Gwynedd yng ngofal yr hen Adran Briffyrdd. Hyd y gwn i, mae'r sefyllfa yn parhau hyd heddiw, gyda Lôn Las Peris yng ngofal y Gyfadran Ddatblygu a'r lonydd eraill yng ngofal Cyfadran yr Amgylchedd.

Pan gyhoeddwyd Strategaeth Feicio Gwynedd, yr amserlen ar gyfer datblygu llwybr beicio Dyffryn Llanberis i Gaernarfon oedd 'tymor canolig'. Eu diffiniad o dymor canolig oedd rhwng 2004 a 2006!

Erbyn dechrau 2005 roedd aelodaeth Rhwydwaith Beicio Peris yn lleihau, yn bennaf oherwydd diffyg ymateb o du swyddogion Cyngor Gwynedd, ac ym mis Mai y flwyddyn honno, cafodd y grŵp gwirfoddol ei ddirwyn i ben. Trosgrwyddwyd yr arian oedd yn weddill yn y gronfa i Adran Chwaraeon Ysgol Brynrefail.

Ar y 4ydd o Fai 2005, ysgrifennais at Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd gydag adroddiad am holl weithgaredd a rhwystredigaethau'r grŵp gwirfoddol. Ni ddaeth ateb. Flwyddyn union yn ddiweddarach, ar y 4ydd o Fai 2006, ysgrifennais eto at y Prif Weithredwr yn gofyn am ymateb. Trefnwyd i mi gael cyfarfod â swyddogion yn yr Uned Drafnidiaeth a'r Uned Cefn Gwlad a Mynediad. Eglurwyd fod cynlluniau ar y gweill i wella'r sefyllfa.

Aeth bron iawn i flwyddyn arall heibio. Hyd yn hyn, does dim wedi ei gwneud i wella cyflwr wyneb y llwybr drwy'r twnnel. Does dim arwyddion yng ngheg y twnnel i arddangos fod llwybr beicio yno. Ac y mae nifer helaeth o feicwyr, gan fy nghynnwys i, yn dewis reidio ar y ffordd fawr - ar hyd y troadau a welodd gymaint o ddamweiniau dros y misoedd

diwethaf - oherwydd fod cyflwr y llwybr beicio mor sâl.

Ydi, mae'n gysur gwybod fod Cyngor Gwynedd yn 'cydnabod pwysigrwydd beicio' a'i fod yn 'cyfrannu at iechyd a lles pobl yr ardal'.

Yn gywir,

DAFYDD WHITESIDE THOMAS

Bron y Nant, Llanrug.

O.N. Byddaf yn ysgrifennu eto at y Prif Weithredwr ar y 4ydd o Fai eleni.

Cynllun Gweithiwr Ieuenctid

Fel y gwelwch o'r pennawd, dal i chwilio ydym am enw bachog, addas ar gyfer Cynllun Gweithiwr Ieuenctid Dalgylch yr Eco.

Fel y soniais y mis diwethaf, mae'r pwyllgor yn brysur ar hyn o bryd yn ceisio nawdd ariannol i'r cynllun. Wedi sicrhau cyfraniad o £25,000 oddi wrth Ymddiriedolaeth Pantyfedwen, yr ydym yn cyflwyno ceisiadau i'r gwahanol enwadau yn genedlaethol. Yr un pryd, yr ydym yn ailgysylltu ag eglwysi'r cylch er mwyn rhoi gwybod iddynt beth sydd wedi digwydd yn ddiweddar, ac i ofyn iddynt gyfrannu at y gwaith pwysig a allai wneud cyfraniad gwerthfawr at gyflwyno'r Ffydd Gristnogol i bobl ifanc y fro hon.

Yr ydym yn gobeithio gallu ymweld â'r eglwysi dros y misoedd nesaf er mwyn egluro'r cynllun yn fwy manwl iddynt. Mae gennym hefyd gynlluniau eraill er mwyn codi arian, a chewch glywed am y rheiny cyn bo hir. (Gan fod rhai eisoes wedi holi am hyn, bydd cyfle i unigolion gyfrannu at y gwaith; a chewch wybod am hynny hefyd yn y man.)

Am y tro, carwn annog yr eglwysi i ystyried cefnogi'r gwaith. Gwyddom nad yw'r rhan fwyaf o'r eglwysi yn graig o arian, a bod y gofynion ariannol eisoes yn drwm, yn arbennig ar yr eglwysi sy'n cynnal gweinidogaeth lawn amser. Ond carem annog yr eglwysi i gyfrannu mor hael â phosibl at y gwaith. Tra'n hyderus y cawn ni rywfaint o'r arian oddi wrth yr enwadau yn genedlaethol, yr ydym yn sylweddoli mai arnom ni yn lleol y mae'r cyfrifoldeb mwyaf am godi'r arian. Allwn ni ddim disgwyl i bobl eraill fuddsoddi arian yn ein cynllun heb ein bod ni fel eglwysi lleol yn gwneud hynny. Os gwelwch yn dda, a wnewch chi ystyried gwneud ymdrech arbennig i gefnogi'r gwaith hwn am dair blynedd. Mae 30 o eglwysi yn yr ardal, a charem feddwl y gallai pob un ohonynt gefnogi'r cynllun.

Edrychwn ymlaen at gael ymweld â'r eglwysi yn fuan i rannu'r weledigaeth â hwy.

JOHN PRITCHARD

O SIAMBAR SELWYN

Oeddech chi wedi hen flino ar y gwyntoedd grymys 'na gawsom ni ddechrau'r flwyddyn? Dwi ddim yn cofio tywydd mor wyntog ers tro byd. Dipyn o niwsans ydi gwynt - fedrwch chi mo'i drystio fo - tydi o mor hoff o falu petha! Cael hwyl fawr wrth chwythu eich het, neu eich cap chi i ffwrdd, a phawb arall yn cael sbort wrth eich gweld chi'n ceisio'u dal nhw. Ac onid un o hoff deganau'r gwynt ydi'r Wili Bins?

Roedd hi'n gas gen i chwarae ffwtbol erystalwm ar ddiwrnod gwyntog, yn enwedig felly ar gae gweddol agored. Un o'r rheiny oedd cae Penmaen-mawr. Dwi ddim yn credu i mi erioed chwarae ar y cae hwnnw heb i'r gwynt sbwylio'r gêm. Cymryd cic gôl, a'r bêl yn dod yn ôl yn syth ata i. Ia, hen gythraul pryfoclyd ydi gwynt. Wrth ymyl fan hyn mae Llys-y-Gwynt, a fuo 'na rioed enw mwy addas ar stad o dai.

Dwi wedi sôn sawl tro mewn sawl lle fel rwy'n ddyledus i'r plant y cefais i'r fraint o'u dysgu am nifer fawr o'r syniadau a gefais pan yn llunio darnau adrodd i blant. Maent yn gallu gofyn ambell gwestiwn sy'n gwbwl amhosibl ei ateb ar brydiau, ond mae'n ddyletswydd ar bob athro i geisio rhoi ateb, neu rhyw fath o eglurhad. Cwestiynau fel: 'Pam fod dŵr yn wlyb?' a chan i mi ddechrau sôn am y gwynt, 'Pam fod gwynt yn chwythu?' ac 'I ble mae'r gwynt yn mynd ar ôl blino?'

Mae'n ffaith, welodd neb y gwynt, dim ond gweld ei lanast o a chlywed ei sŵn. Diolch, blant, am eich cwestiynau gwreiddiol.

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Y Bwystfil

Na, welais innau mo'r bwystfil erioed,
Dim ond ei glywed o'n rhuo'n y coed,
A'i sisial iasol yn nhwll y clo
A'i chwyrniad bygythiol fel un o'i go.

Fo fu yn sgytian y dderwen fawr
Gan sgubo'r dail oddi ar y llawr,
Hen gena mileinig a fu'n ddigon hy
I fygwth sleifio drwy'r simdde i'r tŷ.

Ac mi fydd y môr ambell dro mi wn
Yn sgyrnygu ei ddannedd yn ffyrnig ar hwn,
Mi deimlais ei ias, ac fe glywais ei ru
Yn chwyrlio'n bryfoclyd o gwmpas y tŷ.

Na, welais innau mo'r bwystfil erioed
Ond gwn fod ei guddfan ynghanol y coed.

Gwynt

Gwelais y glaw a'r eira
Yn dyfod ar eu hynt,
Ond mae'n rhyfedd, wedi meddwl,
Welais i 'rioed mo'r gwynt.

Gwelais y fellten hefyd
Yn fflachio yn y nen,
A chlywais sŵn byddarol
Y daran uwch fy mhen.

Ond sut un ydi'r gwynt,
Sy'n dyfod yn ei dro
I hyrddio Coed y Gelli
Ac i ddryllio llechi'r to?

Bu wrthi'n chwyrnu neithiwr
Yn bryfoclyd wrth fy nôr,
A mynnodd godi tymer
Y tonnau ar y môr.

Fe'i clywais, do, a thystiais
I'w gampau megis cynt,
Ond mae'n rhyfedd, wedi meddwl,
Welais i 'rioed mo'r gwynt.

A beth am gyfeirio at y gwynt
fel rhyw gawr mawr neu rhyw
fwystfil anweledig a'i fod o'n
cuddio yn y coed? Roedd plant
yn cael mwynhad mawr o
wneud hyn.

Dyna ddigon o 'dorri gwynt' am
y tro. Erbyn mis nesa,
gobeithio, mi fyddwn ar
drothwy'r gwanwyn, a bydd yr
haf gyda ni mewn chwinciad.
Gobeithio!

UN FUNUD FACH

Hanes

Roedd o'n rhy brysur, mae'n
debyg. Rhwng trin y tir, a sefydlu
mynachlogydd ac eglwysi, a
phregethu, fyddai ganddo mo'r
amser. Fwy na thebyg na fyddai
eisiau sôn amdano'i hun beth
bynnag. Ac eto, mae'n biti na
fyddai Dewi Sant wedi sgwennu
hunangofiant.

Petai o wedi gwneud hynny
byddem ni'n fwy siŵr o'i hanes.
Ond am na wnaeth hynny, mae'n
rhaid i ni ddiwynnu ar yr hyn a
sgwennodd dyn o'r enw
Rhygyfarch amdano yn Buchedd
Dewi. Diolch amdano, wrth gwrs,
ond anfantais y llyfr hwnnw yw
iddo gael ei sgwennu 500 o
flynyddoedd wedi marwolaeth
Dewi. Golyga hynny ei bod yn
anodd gwybod beth sy'n wir am
Dewi; beth sy'n ffrwyth y
traddodiad a ddatblygodd amdano
rhwng ei gyfnod ef a dyddiau
Rhygyfarch; a beth sy'n ddim
mwy na dychymyg Rhygyfarch.

Ychydig a wyddom i sicrwydd
am Dewi. Nid rhyfedd hynny o
gofio iddo gael ei eni tua'r
flwyddyn 520. Mor wahanol yw hi
efo Iesu Grist. Er ei fod ef yn byw
yn bell iawn o Gymru, 500
mlynedd yn gynharach na Dewi,
mae gennym lawer iawn o
ffeithiau amdano. Gwyddom lle
ganwyd ef, ac i bwy; gwyddom
pwy ddaeth i'w weld a beth gafodd

yn anrhegion. Gwyddom lle
magwyd ef, ac mae gennym hanes
un o'r gwyliau a fwynhaodd pan
oedd yn blentyn. Gwyddom pwy
oedd ei ffrindiau. Gwyddom iddo
iachau cleifion a gwneud
gwyrtiau. Mae gennym gofnod
manwl o rai o'i bregethau a'i
ddywediadau. Gwyddom fwy fyth
am ei wythnos olaf, ac am ei
farwolaeth. Gwyddom hyd yn oed
iddo ddod yn ôl yn fyw.

A sut gwyddom hyn? Wnaeth
Iesu, fwy na Dewi, ddim sgwennu
hunangofiant. Ond fe gofnodwyd
ei hanes yn fuan iawn wedi'r
atgyfodiad. Roedd Mathew, Marc,
Luc a Ioan wedi sgwennu'r hanes
erbyn diwedd y ganrif gyntaf. Bu
Mathew a Ioan wrth gwrs, fel dau
o ddisgyblion Iesu, yn llygad
dystion i ran fawr o'r hanes. Roedd
Ioan Marc yn cydweithio'n agos â
Pedr, un arall o'r disgyblion. Ac
roedd Luc, y meddyg, yn gyfaill i
Paul, yr apostol mawr. Pobl oedd
yn agos at yr hanes oedd y rhain, a
gallwn felly ymddiried yn yr hyn a
gofnodwyd ganddynt. Roeddent
yn dibynnu ar yr hyn a gofient; a
mwy na thebyg, yn dibynnu hefyd
ar bethau a gofnodwyd gan
dystion eraill hyd yn oed cyn
iddyn nhw lunio'u hefyngylau.

Mae gennym fwy o hanes Iesu
na'r rhan fwyaf o bobl y
gorffennol. Y gwir yw bod gennym
fwy o ffeithiau amdano ef nag am
ein ffrindiau a'n teuluoedd ein
hunain. Wyddoch chi lle ganwyd
eich taid a'ch nain? Fedrwch chi
enwi dwsin o'u ffrindiau agosaf?
Allwch chi ailadrodd yn rhwydd
ddeg o'u hoff straeon?

JOHN PRITCHARD

PLAID CYMRU



Nos Fercher, 7 Mawrth
am 7.30

CAWL A CHÂN

gyda

GERAINT LOVGREEN

yn

Sefydliad Coffa

Llanrug

Tocynnau: £3.00

CROESO CYNNES I BAWB



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



ARVONIA



- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Triplau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grŵp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvonian.co.uk
Gwefan: www.arvonian.co.uk

PORTREADAU

Myrddyn Pritchard, Llanberis



Yr ieuengaf o bedwar o frodyr yw Myrddyn Pritchard ond roedd ganddo hefyd bump chwaer. O'r naw o blant David a Jane Pritchard, Myrddyn a'i ddiweddar chwaer, Mary, fu'n gweithio'n amser llawn i fusnes adnabyddus E. W. Pritchard, Central Garage, Llanberis, fel y'i adnabyddid. Roedd tri brawd arall, sef Willie Glyn, Tom a Ted(dy) yn gweithio yn chwarel Dinorwig ac yn rhoi help llaw ar benwythnosau, ond wedi i'r chwarel gau, bu Tomos a Ted yn gweithio llawn amser yn y busnes.

Er i mi yn ddiniwed gredu mai 'yr hen Nedw' (E. W. Pritchard), brawd i dad Myrddyn, oedd y 'boss', buan iawn y bu i mi gael fy nghywiro gyda gwên a chryn bendantwydd gan Myrddyn pan ddywedodd mai Mary (ei chwaer) 'heb os oedd y *main spring*'. Hi fyddai'n gofalu am insiwrans y cerbydau a'r lorïau, archebu'r petrol a'r olew, archebu'r *spare parts* hanfodol gan gwmni o Lerpwl, trafod popeth gyda'r Comisiynwyr Traffig, talu biliau, ac ymdrin â gofynion pobol yr ardal a thu hwnt, fel yr angen.

Mae gennyf gof o hyd o'r modurdy a'r gwagle mawr yn y cefn. Yno y cedwid y chwe char Rolls-Royce, oedd yn destun edmygedd pawb, y lorïau, y *coaches* (dim 'bysus' fel y pwysleisiai Mary bob amser), y ddwy hers, a'r unig ambiwlans a fu yn eiddo'r cwmni.

Bu Myrddyn yn ymwneud â'r busnes am chwe deg a phedair o flynyddoedd (nid yw wedi golchi'i ddwylo'n llwyr eto). Daeth i weithio i'w ewythr wedi pum mlynedd yn y Fyddin ac yna ddwy flynedd yn brentis mecanic yn y Red Garage, Caernarfon. Ganwyd Myrddyn Pritchard 87 o flynyddoedd yn ôl, yn Stryd Turner, Llanberis, a chael ei gludo'n faban blwydd oed i fyw yn y Central Garage.

Siop enfawr, math o 'emporium', oedd yr adeilad cyn ei droi yn fodurdy, ac yno y

gwerthwyd popeth dan haul. Yn wir roedd yno 24 o ystafelloedd a rhai ohonom yn dal i gofio'r grisiau crwn, sydd wedi ei symud ers rhai blynyddoedd bellach, i Benygwryd. '*Fuo nhw ddim awr yn ei dynnu i lawr,*' yn ôl tystiolaeth Myrddyn.

Arferid cyflogi tri neu bedwar mecanic - hogia o Sir Fôn, yn byw drwy'r wythnos yn Llanberis - i gynorthwyo Myrddyn i drin a thrafod yr holl gerbydau, ond ym marn Myrddyn y mecanic gorau a welodd oedd Jimmy Welsh. '*Doedd o ddim yn gweithio i ni, ond ambell dro byddai'n galw fel hobi. Arferai wisgo ofyrôl gwyn a byddai wrth ei fodd yn tynnu ac ail osod injan Rolls Royce, a hynny heb gael yr un sbotyn ar ei ofyrôls gwyn.*'

Cred Myrddyn mai tua 1910 y cychwynnodd y busnes pan brynwyd 'hers geffyl' yn Birmingham. Arferid cadw dwy hers bob amser yn Llanberis, ond roedd sawl hers yn berthynol i'r gwahanol blwyfi ac, wrth gwrs, mae sawl 'hen gwt hers' yn bod mewn sawl pentref o hyd, er nid yw bellach yn cael ei ddefnyddio i'r diben gwreiddiol.

Yn ogystal roedd yn y modurdy chwe char Rolls Royce, dwy neu dair lori, chwe 'coach' ac un ambiwlans a brynwyd ym 1935. Pwrpas hon oedd cludo pobol i wahanol ysbytai (yn breifat) a chludo'r rhai a anafwyd yn y chwarel neu ar yr Wyddfa i'r C&A ym Mangor neu i'w cartrefi. Yn ogystal fe'i defnyddiwyd i gludo cleifion ar gytundeb â'r Cyngor Sir.

Rydym, o bosib, yn tueddu i gysylltu busnes E. W. Pritchard fel busnes trefnu angladdau yn unig ond roedd llawer agwedd arall yn bodoli. Defnyddiwyd y lorïau i gario glo a golosg o orsaf yr LMS yn Llanberis at ddefnydd rheilffordd yr Wyddfa, Chwarel Dinorwig, y Gwaith Nwy Lleol, eglwysi a chapel i'r fro, a hefyd at ddefnydd sawl becws. Yn ogystal, o dro i dro, byddai'r Cyngor Sir yn dod ar eu gofyn ac un ddyletswydd cyson fyddai cario bagiau o lo i fasnachwr glo yn Llanberis sef W. Benjamin Thomas. (Wil Ben), gan nad oedd ganddo lorïau ei hun.

Pwy all anghofio'r ceir Rolls-Royce yn tramwyo ffyrdd y fro, bob amser yn sgleinio, cymaint os nad mwy na Rolls Royce y teulu brenhinol? Cyfaddefodd Myrddyn y byddai'n cael cryn foddhad o gadw'r ceir mewn cyflwr mor ganmoladwy.

Beth fu eu tynged? Fe'i gwerthwyd i wahanol fodur dai

ying ngogledd Cymru a rhaid gofyn beth fyddai ei gwerth heddiw?

Ym 1948 y cafwyd y 'coach' gyntaf ac fe'i defnyddiwyd i gludo aelodau gwahanol gapeli ac eglwysi a chymdeithasau ar dripiâu, ac unwaith aed â chriw lleol i Blackpool i weld y goleuadau. Wedi cyrraedd fe'u siarsiwyd i ddod yn ôl yn brydlon yr adeg a'r adeg. Ond roedd dau gariad ar ôl, ac er disgwyl amdanynt am bron i ddwy awr, bu rhaid mynd adref hebddynt er loes i Myrddyn. Do, roeddynt yn y maes parcio mewn pryd ... ond yn y maes parcio anghywir!

Un dyletswydd gweddol aml i Myrddyn fyddai ymateb - a hynny ar unrhyw awr o'r dydd - i geisiadau i fynd i nôl y nyrs ar achlysur genedigaeth, gan mai gartref y byddai'r rhelyw o enedigaethau erstalwm. Y nyrs, wrth gwrs, oedd y ddihafal 'Nyrs Closs' o Gwm-y-glo ac yno yr âi Myrddyn, yn amlach na pheidio yn oriau mân y bore, a'i chludo i'r tŷ ble'r oedd ei hangen. Arferai aros yno nes y byddai wedi gorffen ei dyletswyddau ac yna ei chludo'n ôl i Gwm-y-glo.

Yn ogystal, byddai angen cludo cyrff y rhai a laddwyd ar yr Wyddfa i wahanol fannau ym Mhrydain, yn aml iawn i'r gwahanol fwrdeistrefi yn Llundain. Cyfeiriodd hefyd at ddyletswydd wythnosol ei ddiweddar frawd, Willie Glyn, sef cludo rheolwr y chwarel, W. Lloyd Williams, i'r gwasanaeth fore Sul yn eglwys Nant Peris - '*Am y nesa peth i ddim, a deud y gwir,*' chwedl Myrddyn!

Ymddengys nad oedd Willie Glyn ond ychydig dros ei un-ar-bymtheg oed ar y pryd ac i'r ffaith hon ddod i glustiau'r heddlu lleol a oedd yn rhoi'r argraff eu bod yn ffrindiau efo'r cwmni. Un bore Sul roedd yr heddwas yn disgwyl am y cerbyd ger y Victoria a gofynnwyd cwestiynau i Willie Glyn a hynny er mwyn rhoi argraff foddhaol ar y rheolwr, mae'n siŵr, gan fod y gŵr hwnnw yn Ustus Heddwch. Ni chlywyd rhagor am y mater, dylanwad y gŵr pwysig yn y sedd gefn, o bosib! Gyda llaw, y llysenw yn Llanberis ar y plismon oedd 'I.O.U.' Pam felly? '*Am ei fod o'n begio bob munud, isio menthyg rwbath o hyd ac o hyd.*'

Holais Myrddyn am ei brofiadau ynghanol tywydd garw a soniodd am ddyddiau o eira trwm a sawl hers wedi ei dal mewn gwahanol fannau yng Nghaernarfon, ac yn methu mynd i wahanol fynwentydd. Oherwydd gerwinder y tywydd roedd Myrddyn wedi mynd i'r dref y noson cynt gyda'r car - roedd yr hers yng Nghaernarfon yn barod - ac er hwylustod cysgodd yn y car y noson

flaenorol. Roedd yr hers gyda'r arch trannoeth mewn eira mawr ym maes parcio'r hen stesion yng Nghaernarfon ac aelod o deulu'r ymadawedig yn pwyso'n drwm ar Myrddyn i fynd â'r hers i fynwent yng nghyffiniau Dwyran ym Môn. Roedd Myrddyn yn anfodlon iawn i symud o'r dre, ond oherwydd pwysau'r dyn cychwynnodd drwy'r eira ond, erbyn cyrraedd Porthaethwy, roedd yn eglur nad oedd modd mynd gam ymhellach. Yna soniodd y gŵr fod perthynas yn byw mewn rhyw fferm gyfagos ac y dylid ymdrechu i fynd â'r hers a'r arch yno.

'*Dim ffiars o beryg. Mi rydw i'n mynd yn ôl i Gaernarfon, os yn bosib,*' oedd ateb pendant Myrddyn, ac felly y bu gan ddisgwyl am dywydd gwell yn y dyddiau dilynol.

Yn naturiol, yn sgil ei amryw ddyletswyddau daeth i nabod pob meddyg, nyrs, plismon, gweinidog ac offeiriad yn yr ardal. Ei ffefryn, mae'n ymddangos, oedd un o'r meddygon lleol, gŵr a adwaenem oll fel 'Dr Douglas'. '*Dyna i ti hen foi iawn.*'

Mae dwy ffaith anwahanadwy wrth sôn am fusnes E. W. Pritchard, Central Garage, Llanberis, a'r ffeithiau hyn ynghlwm â'r busnes prysur yma dros flynyddoedd lawer. Nid yn unig fod y ceir yn sgleinio ac yn lân eithriadol ar bob achlysur, ond yn ail, roeddynt BOB AMSER, yn brydlon.

'*Fuo ni 'rioed ar ôl,*' meddai, gyda chryn bendantwydd a balchder. Does neb all anghytuno â'r arwyddair hwnnw, rwy'n siŵr.

Pan awgrymwyd ei fod yn rhoi'r argraff o fod wedi bod yn dipyn o 'workaholic' atebodd gyda gwên,

'*Mi enjoi i bob munud, falla am fod cymaint o amrywiaeth a chyfarfod cymaint o bobol, ond faswn i byth wedi g'neud be 'nes i oni bai am Annie, y wraig. Iddi hi mae'r diolch achos rown i oddi cartref cymaint a doedd hi byth yn cwyno. Mi fuo, ac mae, yn gefn mawr i mi...*'

A chyda gwên swil fe dderbyniodd Annie y ganmoliaeth ddiffuant yna.

Mae i'r ddau dri o blant, sef Ted sydd yn athro yn Aberdâr, John, yn Weinidog yn ei gynefin yn Llanberis a Deiniolen, a Jane, y ferch. Fe gollwyd bachgen arall, sef Noel, mewn damwain ar y ffordd ar gyrion y pentref rai blynyddoedd yn ôl.

A Jane, yr ieuengaf, sydd yn cadw cysylltiad â'r hen draddodiad, a hynny ar ddarn o dir oedd ar un cyfnod yn rhan brysur a hanesyddol o'r hen Central Garage yn Llanberis.

ROL WILLIAMS
(y mis nesaf Sian Wyn Gibson, Deiniolen a Llanwnda)

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

CLWB YR HENOED. Pêl Bonws Loteri. Enillydd mis Ionawr oedd Mrs Mair Orrock, (Rhif 36). Llongyfarchiadau.

BINGO. Cynhelir *Noson Bingo Basg* ar nos *lau*, 29 Mawrth, yn y Neuadd Gymuned am 6.30 yr hwyr – yr elw tuag at Gronfa'r Pensynwyr.

GWELLHAD. Dymunir adferiad iechyd buan i Mrs Blodwen Mowll, 19 Bryn Tirion, yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. PEN-BLWYDD ARBENNIG. Deellir fod Dorothy Lamb, 2 Bryn Eglwys, wedi dathlu pen-blwydd arbennig ar 13 Chwefror. Llongyfarchiadau, Dot. DIOLCH. Dymuna Jean a Wil, 24 Bryn Tirion, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da ar achlysur eu Priodas Arian. Cawsant ddatliad bythgofiadwy. Diolch.

DYMUNA Mrs Mary Davies (Anti Mary), 9 Llys y Gwynt ddiolch i'r teulu oll, cymdogion a llu o ffrindiau am y cardiau niferus, y blodau bendigedig a'r anrhegion hardd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed. Diolch hefyd i swyddogion ac aelodau Eglwys Santes Helen am eu dymuniadau da ac i athrawon a phlant yr Ysgol Sul am y cerdyn creffus. Diolch o galon.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Chwefror a'r enillwyr oedd: 1. Carys Williams, Meini Gleision; 2. Aled Green, Rhos Wian; 3. Phyllis Ellis, Rhos Fair.

Atgoffir chwi y bwriedir cynnal 'Ras Beli' i lawr Lôn Cae Hywel ar nos *Wener*, 16 Mai am 6.00 o'r gloch. Pris pêl fydd £1. Gobeithio y cawn eich cefnogaeth i'r weithgaredd hon.

Gobeithir tynnu Rhif Lwcus y Calendr ar y noson. Mae nifer o ddyddiau ar ôl ar y Calendr o hyd a buasem yn hynod falch o'ch cydweithrediad.

LLONGYFERCHIR Mrs Einir Humphreys, Adran y Babanod, ar enedigaeth merch fach, Nyfain, chwaer fach i Ceiri a Llew.

EISTEDDFOD BENTREF. Atgoffir chwi y cynhelir yr Eisteddfod nos *Wener*, 11 Mai. Bydd ymarferion yn cychwyn yn fuan rŵan bob nos Lun a Mercher i blant ac oedolion.

Cynhelir Pwyllgor nos *lau*, 8 Mawrth am 7.00 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned i drefnu'r Noson Goffi a gynhelir nos *lau*, 15 Mawrth am 6.30 o'r goch. Bydd cyfle i gael y Testunau ar y noson.

YSGOL SUL BOSRA. Thema'r tymor hwn yw 'Cartrefi' a diolchir i'r rhieni a fu'n annog y plant i gynllunio a gwneud tŷ lesu ynghyd â choed palmwydd i gysgodi rhag yr haul crasboeth. Diolch am eich cydweithrediad.

Bydd amser prysur o'n blaenau yn ystod y misoedd nesaf gyda Chymhanfa'r Methodistiaid, sy'n cael ei chynnal ym Mosra ym mis Mehefin, a Chymhanfa'r Annibynnwyr Cylch Deiniolen a Chwm-y-glo yng nghapel Jeriwsalem, Llanberis – nid yw'r dyddiad wedi ei benodi eto. Ceir manylion pellach wedi'r pwyllgor, nos *lau*, 8 Mawrth.

YSGOL GYMUNED

Cwmni'r Frân Wen: 'Ty'd Adra'

Bu disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn gweld drama – cynhyrchiad gan Gwmni'r Frân Wen – yn Ysgol Dolbadarn ar 6 Chwefror. Mae cynhyrchiadau'r Cwmni yn cyfrannu'n benodol at raglen Addysg Bersonol a Chymdeithasol yr ysgol ac yn ymwneud â phethau sy'n poeni plant

o'r oedran dan sylw, e.e. pwysau cyfoedion, bwlio, newid ysgol, ayyb. Teitl y sioe gyfredol yw 'Ty'd Adra' ac mae'n delio â theimladau plant pan mae eu rheini'n gwahanu. Bydd gweithdai penodol yn cael eu cynnal yn yr ysgol yn trafod agweddau o'r ddrama gyda disgyblion CA2, dan ofal Miss Catrin Fychan Thomas.

Cymharu Dwy Fferm o Fewn y Dosbarth. Braf oedd gweld tad lanto a Catrin wedi dod i'r ysgol i drafod bywyd fferm o ddydd i ddydd. Daeth y plant yn ymwybodol o fywyd ffermwr yn ogystal â thrafod anifeiliaid y fferm.

Hefyd daeth mam lestyn i'r ysgol i drafod ffermio organig. Cafodd y disgyblion gyfle i flasgu gwahanol lysiau organig a sut mae modd eu tyfu a'u gwarchod. Fel dilyniant i'r

gwaith paratowyd cawl arbennig o flasus.

Cafwyd cwestiynau ac ymatebion hynod o ddiddorol yn dilyn yr ymweliadau. Llauer o ddiolch i'r ddau am eu hymwelid gwerthfawr.



Gweithdy Pypedau, 12 Chwefror.

Cafodd disgyblion blynyddoedd 5 a 6 ddiwrnod prysur yn gwneud pypedau mewn gweithdai arbennig ar y thema 'Cyfle Cyfrartal'.



Mam lestyn yn sôn am gynnyrch organig.

Cyngor Ysgol. Syniadau da iawn gan y Cyngor: bwriad o sefydlu 'Bydis Buarth' a chael gemau buarth newydd. Da iawn chi!

Pentre Peryglon, 12 Mawrth. Ar y cyd ac Ysgol Cwm-y-glo, bydd disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn ymweld â 'Phentre Peryglon'. Canolfan bwrsasol yw 'Pentre Peryglon' sydd wedi ei leoli yn Nhalacre, ger Prestatyn yn Sir y Fflint. Ymateb arloesol ydi'r Pentre Peryglon i ddamweiniau, anafiadau a throseddau a ddatblygwyd gan Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r pentre wedi ei seilio ar dair brif thema sef, diogelwch cymunedol (sy'n cynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyffuriau a chanlyniadau troseddu), diogelwch personol (sy'n cynnwys y cartref, rheilffyrdd, trydan a dŵr môr, llynnoedd ac afonydd), a diogelwch y ffyrdd.

Gweithgareddau Awyr Agored, 12-14 Mawrth. Bydd cyfle i ddisgyblion blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 ymweld â chanolfan weithgareddau Awyr Agored Rhyd Ddu. Cynigir amrywiaeth o weithgareddau megis cyfeiriannu, cerdded mynyddoedd, datrys problemau yn ogystal â chyfleoedd datblygu sgiliau cydweithio a hunanhyder y disgyblion. Cyfraniad oddeutu £40 yn cynnwys bwyd am y dau ddiwrnod.

Hanes y Pasg yng Ngholeg y Bala, 27 Mawrth. Cyfle i holl ddisgyblion yr ysgol ddod yn ymwybodol o stori'r Pasg mewn ffordd fywiog. Cyfraniad oddeutu £8 yn cynnwys cinio poeth a bws.

'Os gwelwch yn dda, ga i grempog?' Bu'r Adran Babanod yn brysur iawn yn gwneud crempogau a rhaid dweud, roeddynt yn flasus iawn.



Croeso Cynnes. Yn dilyn absenoldeb mamolaeth Mrs Humphreys hoffwn groesawu Miss Catrin Thomas i'n plith. Llongyfarchiadau. Fel ysgol hoffem longyfarch Mrs Einir Humphreys ar enedigaeth merch fach o'r enw Nyfain.

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pñawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llunopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org

01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

CARPEDI GLÂN
ERYRI



• PELLTER DDIM
YN BROBLEM

• DIM UN DASG YN RHY FACH

CWMNI LLEOL

ffôn

07917116615

ebost: carpediglaneryri@hotmail.com

AMCAN BRIS AM DDIM

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

CAPEL Y RHOS (am 10 o'r gloch)
Trefn yr oedfaon ar gyfer mis Mawrth
4: Mr. Edward Morus Jones

11: Parch. Athro Gwilym H. Jones
18: Parch. Angharad Roberts
25: Parch. Meirion Lloyd Davies.

Ar Ionawr 21ain, bedyddiwyd Beth
Whiteside Thomas gan ein cyn
weinidog y Parch. Dafydd Hughes.
Braf oedd gweld ei brodyr a'i chwaer
- Robin, Anna a Guto, yn ymuno
gyda'u rhieni yn y sêl fawr.

Braf hefyd oedd cael croesawu Mrs.
Megan Williams yn ôl i'r capel ar
Chwefror 11fed, wedi dychwelyd o
Gaerdydd. Roedd ei merch Eleri
gyda hi yn yr oedfa.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd
cyfarfod o'r gangen ar nos Fawrth,
13 Chwefror, yn y Ganolfan
Gymunedol ac estynnodd Megan,
fel ls-lywydd, groeso cynnes i bawb.
Anfonwyd cofion at Nan, y Llywydd,
a oedd yn absenol oherwydd
gwaeledd ei mam, ac hefyd at Mrs
Whiteside Thomas a oedd wedi cael
damwain. Llongyfarchwyd Linda ar
ddod yn nain unwaith eto - wyres,
Efa Catrin. Derbyniwyd cofion at
aelodau cangen Llanrug gan Mrs
Lovatt a Mrs W.A. Jones.

Llongyfarchwyd timau Llanrug ar
ddod yn drydydd a phedwerydd yn
yr ornest Bowllo Deg ac i dîm I
Llanrug ar ddod yn gyd-fuddugol yn
y Cwis Hwyl. Cymerodd Beryl
Thomas ran yn y distawrwydd
noddedig ym mis Ionawr. Unwaith
eto bydd aelodau'r gangen yn
paratoi bwyd yn Eisteddfod yr Urdd
a gynhelir ar 3 Mawrth yn Ysgol
Brynrefail.

Y gŵr gwadd oedd J. Elwyn
Hughes, Bethel, cyn brifathro Ysgol
Dyffryn Ogwen Bethesda a chyn-
gyfarwyddwr y Ganolfan
Astudiaethau Iaith, a'i destun oedd
'Byd a Bywyd Caradog Prichard'.
Trwy gyfrwng cyflwyniad *powerpoint*
dangoswyd llawer iawn o luniau o
Caradog, ei deulu, ei ffrindiau a'i
gydnabod gydag Elwyn yn adrodd
hanes nifer o'r cymeriadau a'r
digwyddiadau. Gwelwyd llun o'i
gartref cyntaf, Llwyn Onn; ei fam,
Margaret Jane; teulu Nain Pen Bryn;
ei dad yn y chwarel; ei gartrefi yn
ardal Bryn Teg, Bethesda, yna yn 4
Glanrafon ac yna yn 4 Stryd Hir,
Gerlan; ei gariad pan oedd yn
gweithio yn Swyddfa'r *Herald*; cariad
arall, sef Eleanor Jones, Talysarn; ei
goroni yn Eisteddfod Caergybi 1927;
ei ddarpar wraig, Mattie, a gyfarfu
tra'n gweithio ar y *Western Mail* yng
Nghaerdydd; ei goroni yn Eisteddfod
Treorci 1928 a Lerpwl 1929;
Caradog a Stanley Baldwin yn yr
Eisteddfod; ei briodas â Mattie; yn y
fyddin; Mattie a Mari, eu merch; ei
gartref yn Llundain; ei bwdl, Benji, a
fu'n mynychu'r eisteddfod am
ddeunaw mlynedd; Wili'r pwdl
ffyrnig; ei gadeirio yn Eisteddfod
Llanelli; priodas Mari, gyda Mari'n
gwisgo coron Caergybi a'i garreg
fedd ym mynwent Coetmor.

Bu'n noson ddifys dros ben gyda
nifer yn mynd adref â'u bryd ar
ddarlenn cyfrol Elwyn *Byd a Bywyd*
Caradog Prichard.

Paratowyd y baned gan Mair,
Meirwen, Enid a Menna ac enillwyd
y raffl gan Megan. Cynhelir y
cyfarfod nesaf ar 13 Mawrth a bydd
aelodau'r gangen yn dathlu Gŵyl
Dewi yng nghwmni Sian Wyn
Gibson.

PLAID CYMRU. Nos Fercher, 7
Mawrth, bydd Cangen Llanrug o

Blaid Cymru yn dathlu Gŵyl Ddewi
gyda Chawl a Chân yng nghwmni'r
canwr a'r bardd poblogaidd, Geraint
Lovgreen. Tocynnau i'w cael gan
Meirwen (675359), Vera (674878)
neu Llinos (674478). Croeso cynnes
i bawb i'r Sefydliad Coffa am 7.30 o'r
gloch.

DIOLCHIADAU. Dymuna Ellen a
Gwyn Antur ddiolch i'r teulu,
ffrindiau, cymdogion a staff Ysgol
Gynradd Llanrug am yr anrhegion,
yr arian a'r holl gardiau a
dderbyniwyd ar achlysur eu
dyweddïad dros gyfnod y Nadolig.
HEFYD fe ddymuna Elaine Jones, y
Siop Trin Gwallt, ddiolch i bawb am
eu caredigrwydd ar ôl iddi gael
llawdriniaeth yn Ysbyty Whiston,
Lerpwl, yn ddiweddar. Diolch yn fawr
iawn.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyd y
Clwb 100 am fis Chwefror oedd:
£20: Mrs E. Roberts, 11 Nant y Glyn;
£7: Mrs E. Davies, Llys Alaw; £5:
Mrs C. Griffiths, Tan y Fron.
BABIS NEWYDD.

Llongyfarchiadau mawr i Lowri
Angharad a Siôn Gwyn ar
enedigaeth merch fach, Olwen
Gwyn, chwaer newydd i Math ac
wyres i John a Mary Roberts, Bedw
Gwynion.

Ganwyd merch fach i Eifion ac Ellen,
Nant y Glyn. Dymuniadau gorau
iddynt a llongyfarchiadau i Taid a
Nain, Hywyn a Mair Jones a Hywel a
Mair (Londis).

Pob dymuniad da i Menna (Pant
Mwyn) ac Al ar enedigaeth eu merch
fach, Efa Catrin, yn Llundain. Mae
Nain a Taid, Hefin a Linda, wedi
gwirioni.

BRYSIWCH WELLA. Mae Buddug,
merch fach Bryn a Gwenan,
Brynrefail (Pant Mwyn) wedi derbyn
llawdriniaeth yn Ysbyty Alder Hey yn
Lerpwl ac mae pethau yn argoeli yn
dda. Anfonwn ein dymuniadau gorau
iddi hi a'r teulu bach.

Deallwn fod Bryn Thomas, Nant y
Glyn, wedi cael damwain ddrwg
gyda'i feic. Gobeithio y byddi yn
gwella'n fuan, Bryn, ac yn ôl ar yr
Ambiwlans yn fuan.

PROFEDIGAETHAU. Bu David
Michael Jones, 5 Tai Bryn Afon,
Crawia, farw ddydd Llun, 19
Chwefror, yn 62 mlwydd oed. Ac
yntau'n ŵr i Maud, yn dad gwyh i
Gwyn, Bryn, Sharon, Lynne, Alwyn a
Cormac, ac yn daid anhygoel i Siôn,
Aron, Cai, Angharad a Gwion, mae
ei golled yn enfawr. Dymuna'r teulu
ddiolch o waelod calon i ffrindiau,
teulu ehangach a'r gymuned am eu
cefnogaeth a'u caredigrwydd yn
ystod y cyfnod trist hwn.

Ar ôl gwaeledd byr, bu farw
Richard Jones (Dick, Gofalwr Ysgol
Brynrefail), 8 Rhos Rug, yn 79
mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn arw
â'i wraig, Hefina, Melfyn a Sioned,
Tecwyn ac Ellen, a'i wyrion a'i
wyresau. Hefyd ei ddwy chwaer yn
Llanrug, Mrs Eirwen Williams a Mrs
Mair Jones, a gweddill y teulu.

Yn 65 oed bu farw Mrs Gwenda
Gardiner (Lewis gynt). Becws
Bryngwyn, ar ôl gwaeledd byr.
Estynnwn ein cydymdeimlad at ei
gŵr, Martin, y plant, Terisa, Chris,
Ruth, Andrew, Sion, Kim a Robin, a'r
wyrion a'r wyresau. Hefyd ei brodyr
a'i chwiorydd a'u teuluoedd oll. Bydd
colled fawr iddynt i gyd.

Bu farw John Anthony, Tyddyn
Elan, yn 40 oed. Roedd yn fab i Mr a
Mrs Anthony, cyn-berchnogion y
Cartref Preswyl. Bydd colled fawr

i'w rieni a'i wraig, Angela, a'i chwaer,
Janice. Anfonwn ein cydymdeimlad
atynt fel teulu.

Cydymdeimlwn yn arw â Mr a
Mrs Elfed Roberts, Tan y Coed, a
Mark, Sara, Brent, Harry a Jack, yn
eu profedigaeth lem o golli mam,
nain a hen nain annwyl iawn, sef Mrs
Mary Roberts, 13 Hafan Elan a
chynt o Rallt Goch, Cwm-y-glo.

DIOLCHIADAU. Dymunwn, fel
teulu'r diweddar Eddie Owen,
Ferndale, Glanffynnon, ddiolch o
galon am bob arwydd o
gydymdeimlad a dderbyniwyd yn
ystod ein profedigaeth ddiweddar.

Mawr yw ein diolch i'r Parchg
Dafydd Hughes am gynnal y
gwasanaethau ac am ei deyrnged
arbennig. Hefyd i Gwynfor Jones o
E. W. Pritchard, Llanberis, am ei
drefniadau gofalus a thrylwyr.

Diolch yn ogystal am y
cyfraniadau niferus er cof am Eddie,
er budd yr elusen, Diabetes UK.

NOSON AGORED CÔR ERYRI

Hoffi Canu?
Medru Canu?
Awydd Canu?

Ydach chi erioed wedi cael
awydd i fod yn rhan o griw
hwyliog sy'n cyfarfod bob
wythnos i ganu? Os felly, beth
am ystyried ymuno efo'r Côr?

Côr Merched ydi Côr Eryri
sy'n cyfarfod bob nos lau am
8.00 o'r gloch yn Llanrug. Does
dim rhaid i chi fedru darllen
cerddoriaeth ond os 'dach chi'n
mwynhau cael ambell noson
allan, ac yn mwynhau canu, wel
beth am roi cynnig arni?

Dewch draw i'r

NOSON AGORED

yng Nghapel y Rhos, Llanrug,
nos lau, 8 Mawrth am 8.00.
Cawn baned a sgwrs a bydd
cyfle i holi a chyfarfod yr
aelodau. Mwy na thebyg
byddwch yn adnabod llawer
ohonynt yn barod! Neu gwell
fyth dewch â ffrind efo chi!

Mae croeso i bawb o BOB
llais ac yn arbennig, ALTO, ac
os am fwy o fanylion yna
codwch y ffôn

(01286) 872001

Dewch Draw... Peidiwch â bod
yn Swil! Edrych ymlaen at eich
gweld am 8 ar yr 8fed.

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

LLANRUG
677362
neu symudol
07979
620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

Blodau
Racca

(ALWYN AND SARAH JONES)

Ffôn 870605

- Basgedi Planhigion,
Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod
yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau
Siarad/*Talking Pages*
0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau
a Ffrwythau Ffres

RHODD O'R GALON YW BLODAU

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLLIAU

**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

- * Cig o ffermydd lleol
- * Partion rhwng 40 a 400!
- * Gyda saws afal a stwffin mewn
rholiau
- * Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYN CIG ar 675190 / 673188

Ffôn symudol: 07798 718788

wefan: www.ydyncig.co.uk

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch
cadw'n gynnes ac yn glyd!

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

PENODIAD. Dymunir llongyfarch Mrs Deilwen Hughes, Bryn Ogwen, ar gael ei phenodi'n Bennaeth yr Adran Gerdd yn Ysgol Dyffryn Nantlle. Ar ôl treulio'n agos i ddeng mlynedd yn dysgu Cerdd yn Ysgol David Hughes (gyda chyfnodau cymharol fyr cyn hynny yn Ysgol Tryfan ac Ysgol Brynrefail, a chyfnod o rai blynyddoedd ar ôl gadael Coleg yn Bennaeth Cerdd yn Ysgol Dyffryn Ogwen), dechreuodd yn ei swydd newydd ddechrau lonawr eleni.

EISTEDDFOD. Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Eisteddfod y pentref yn ddiweddar ac etholwyd y canlynol yn Swyddogion am eleni:

Llywydd: Rita Williams; Is-lywydd: Deilwen Hughes; Ysgrifennydd: Rhian Hughes; Is-ysgrifennydd: Enid Huws; Trysorydd: Gwyneth Jones; Is-drysorydd: Nan Jones; Ysgrifennydd Dawnsio: Sian Harris; Swyddog y Wasg: Glenys Griffiths; Ysgrifennydd Tariannau: Nora Parry; Ysgrifennydd Celf: Manon Griffiths.

Pasiwyd i gynnal Eisteddfod eto eleni a hynny ar ddydd Sadwrn, 17 Tachwedd, a'r noson Ddawnsio ar y nos Fawrth cynt, sef 13 Tachwedd.

CLWB BRO BETHEL. Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror yn ddiweddar gyda Gari Wyn yn annerch yr aelodau. Croesawyd pawb ynghyd gan y Llywydd, Goronwy Jones, a chydymdeimlwyd â dau deulu mewn profedigaeth, sef teuluoedd y diweddar Deiniol Williams, Cilgwyn, a Mary Hughes, 27 Bro Rhos. Diolchwyd i Gyngor Llanddeiniolen am rodd ariannol er budd y Clwb.

Siaradodd Gari Wyn am ei fagwraeth yn ardal Cerrig y Drudion, ac edrychai arno ei hun fel 'plentyn yr A5' oherwydd iddo gael ei ddwyn i fyny daflad carreg oddi ar y brif ffordd o Lundain i Gaergybi, ym mhentref Glaslyn. Disgrifiodd bwysigrwydd y ffordd yma dros nifer o flynyddoedd, yn enwedig yn oes y tollbyrth, a thrafnidiaeth a thynnodd sylw at nifer o nodweddion sy'n haeddu sylw ar hyd y ffordd.

Diolchwyd am sgwrs gartrefol braf gan Rita Williams, a mwynhawyd paned a bisgedi gan bawb cyn troi am adre.

CYMDDEITHAS LENYDDOL

Daeth nifer dda o aelodau ynghyd yn ddiweddar i groesawu'r siaradwr gwadd, sef Geraint Jones, Trefor. Testun ei sgwrs oedd 'Cym y Diafol' a chafwyd orig ddifys yn ei gwmni yn gwrando ar hanesion byd y bandiau pres yn ardal y chwareli dros nifer dda o flynyddoedd. Diddorol oedd deall bod yna fand pres yn bodoli ymhob pentref bron yn ystod diwedd y 19ganrif ac, wrth gwrs, yn yr ardal yma mae Band Llanrug a Band Deiniolen, dau o'r bandiau hynaf i'w sefydlu, yn dal yn gryf. Diolchwyd iddo am noson arbennig o ddiddorol gan gynnwys nifer dda o hanesion yr amrywiol fandiau gan y Cynghorydd Huw P. Hughes.

MERCHED Y WAWR. Croesawyd yr aelodau i gyfarfod Chwefror gan y Llywydd, Anne Elis, a chroeso arbennig i Mim Roberts, Swyddog Datblygu'r Gogledd, a oedd wedi ymuno â ni. Llongyfarchwyd tair aelod ar fod yn neiniau, sef Delyth a'i hŵyr cyntaf, Leo; Mary a'i hŵyr hithau, Cian, a Gwyneth Jones a'i hwyres, Catrin.

Cydymdeimlwyd â theulu'r ddiweddar Mrs Elen Jones, gynt o Awel y Grug. Yr oedd Mrs Jones yn un o aelodau cyntaf y gangen a bu'n aelod selog dros nifer o flynyddoedd.

Llongyfarchwyd aelodau y tîm Bowlïo Deg, sef Anne, Mair, Beti, Sian, Glenys a Rita, ar fynd ymlaen i'r rownd nesaf. Mynegodd rhai aelodau

ddiddordeb mewn ymuno â'r côr a drefnir ar gyfer 'Dathlu'r Deugain' yn y Bala.

Diolch i Glenys ac Eirlys Williams am ein cynrychioli yn y Distawrwydd Noddedig. Llwyddwyd i godi £150 yn y gangen.

Apeliodd Mim am gefnogaeth i'r Noson Chwaraeon fydd yn cael ei threfnu yn neuadd Bethel, nos Wener, 23 Mawrth. Y gemau fydd Dominos, Tipit, Chwist a Dartiau. Cangen Bethel fydd yn trefnu'r lluniaeth.

Os oes diddordeb yn y daith i ardal Caer, sydd wedi ei threfnu gan yr is-bwyllgor Celf a Chrefft, yna cysylltwch gyda Sian Davies cyn 2 Ebrill (670685).

Bu Margaret Druce, yr is-Lywydd, yn brysur iawn yn trefnu stondin, 'Pobi Dros Bobath', a llwyddwyd i godi £52. Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd.

Ein gwraig wadd oedd Nia Povey o Lanfrothen a fu'n ceisio ein dysgu i arlunio gyda phasteli. Cawsom orig hynod ddifys yn ei chwmni a chafodd pawb flasus taffi blasus Elizabeth Evans, Pen Parc, fu'n help mawr i ni ganolbwyntio ar yr arlunio! Diolchwyd i Mrs Povey gan Brenda Jones. Merched y te dan ofal Mary, oedd Mair, Ellen a Margaret Druce. Rita enillodd y raffl.

Llongyfarchiadau i Anne a Gwyneth ar dderbyn swyddi is-Ysgrifennydd ac is-Drysorydd y Rhanbarth.

Byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi yn 'Taro Deg' ym Mhwlheli ar nos Fercher, 14 Mawrth yng nghwmni yr Archdderwydd, y Prifardd Selwyn Iolen, a'i wraig, Myra. Noddir yr anerchiad gan ACADEMI.

Seren Seland Newydd yn hudo Gwlad y Gân!

Gyda llu o artistiaid byd enwog yn perfformio yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen eleni, mae rhywbeth bach sy'n siŵr o apelio ar eich dant. Un o'r sêr sydd wedi hudo cynulleidfaoedd Cymry dros y blynyddoedd diwethaf yw'r ferch ifanc, 19 oed, o Seland Newydd, Hayley Westenra. Mae'r gantores ifanc wedi perfformio yng nghwmni'r enwog Bryn Trefel, a chyda côr meibion ardal Llandudno, Côr Maelgwn, yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

I ni'r Cymry, mae ei hymddangosiad ar ddechrau gemau rygbi wrth ganu anthem genedlaethol ei thim cartref, Seland Newydd, yn aros yn y cof, ac ym mis Gorffennaf eleni, tro Llangollen yw croesawu'r ferch sydd â llais fel eos.

'Mae hi'n hyfryd croesawu merch mor hynaws â Hayley Westenra atom ni i'r Eisteddfod eleni,' eglura Gwyn L. Williams, Prif Weithredwr Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. 'Mae ei llais godidog a'i repertoire eang yn siŵr o ddenu torf lew i Llangollen. Mae hi'n fraint lwyd i ni ei denu atom yng nghwmni Côr Ieuencid The Tower, Seland Newydd, i ganu nos Wener, 13 Gorffennaf. Mi fuom ni'n ffodus iawn i gael cwmni Hayley wrth lansio'r Eisteddfod yng Nghaerdydd ychydig wythnosau yn ôl, ac roedd ei phroffesiynoldeb ar lwyfan yn werth chweil.'

Bydd Hayley yn rhyddhau record newydd cyn ei hymddangosiad yn Llangollen, a fydd, mae hi'n

gobeithio, dyn dilyn yn llwyddiant ei halbwms aur gwyn, 'Pure' ac 'Odyssey'.

'Dwi wastad wrth fy modd yn perfformio yng Nghymru, ac rwy'n ystyried gwlad y gân fel ail gartref i mi. Rwy'n edrych ymlaen at fy nghyngerdd cyntaf yn Llangollen, ac yn hynod falch o fod yn perfformio yng nghwmni un o gorau ieuencid gorau Seland Newydd, sydd wedi ennill prif wobwr, sef Gwobr Côr y Byd, yn yr Eisteddfod yn y gorffennol.'

Gŵr arall sy'n siŵr o ddenu diddordeb yn ystod yr Ŵyl eleni yw un o denoriaid mwyaf blaenllaw'r byd, José Carreras. Mae Carreras yn dilyn ôl traed ei gyd-gantorion yn y Tri Thenor, Luciano Pavarotti a Plácido Domingo, wrth ymddangos yn Llangollen am y tro cyntaf erioed. Bydd Carreras, sydd ar hyn o bryd yn hudo cynulleidfaoedd ar draws Ewrop, yn perfformio gwaith nodedig yr Offeren, Misa Criolla, yn y Cyngerdd Gala nos Sul, 15 Gorffennaf.


Meddai Carreras: 'Rwy'n ymwybodol o'r gwaith gwych y mae'r Eisteddfod Ryngwladol yn ei wneud ers blynyddoedd bellach, wrth ddod â phobl ar draws y byd at ei gilydd trwy gyfrwng cerddoriaeth a dawn. Rwy'n ei theimlo hi'n fraint lwyd cael fy ngwahodd i berfformio am y tro cyntaf yn yr Ŵyl arbennig hon,' eglurodd y Sbaenwr.

'Yr enwau eraill sydd wedi eu cyhoeddi ar gyfer cyngherddau'r Eisteddfod eleni yw'r gantores werin Americanaidd, Joan Baez, yn ogystal â Tia McGraff, gwraig o Ganada sy'n canu ar ffurf roc gwerin Americanaidd,' eglurodd Gwyn L. Williams.

Uchafbwyntiau eraill yr Eisteddfod eleni yw'r Diwrnod Rhyngwladol Ieuencid a Diwrnod Rhyngwladol y Teulu, sy'n cynnig llu o weithgareddau a diddanwch amrywiol. Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd cyhoeddiadau ynglŷn â Chystadleuaeth Côr y Byd; un o brif wobrau'r steddfod, sef Cwpan Pavarotti, a rhestr o holl wledydd y byd fydd yn cystadlu yn yr Ŵyl ungirw hon.

Am docynnau a gwybodaeth bellach, cysylltwch â (01978) 862001 neu 08701 211251 neu ewch ar y wefan:

www.international-eisteddfod.co.uk
neu www.visitwales.com.



J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael –

Ffôn: (01286) 672898 (dydd)
676285 (nos)

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

Perchnogion Newydd!

yn parhau'r traddodiad gwych

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:
(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

SGOL CWM Y GLO

Llongyfarchiadau i Katie Roberts a Conor Handy am gael eu hethol yn Swyddogion Diogelwch y Ffyrdd eleni. Maent eisioes wedi bod yn brysur yn creu arddangosfa yn y neuadd sy'n llawn gwybodaeth defnyddiol.

Da iawn Leon Dean, Fern Coxhead, Shannon Christy ac Aiden Roberts am ennill tystysgrif o'r Ganolfan Hamdden am eu sgiliau dŵr.

Diolch i Ian Williams o Techniquet am ddod draw i'r ysgol i gynnal Gweithdy Gwyddoniaeth ar rymoeddd. Roedd pawb wedi mwynhau y diwrnod yn arw iawn.

Daeth Owen Davies o Gwmni Cortyn i gynnal gweithdy gyda'r plant hynaf. Cawsant gyfle i greu pyped bob un cyn mynd ati i sgriptio sgets a pherfformio i'r plant lleiaf ar ddiwedd yr wythnos. Roedd yn brofiad gwerth chweil ac yn weithgaredd hwyliog iawn.

Diolchwn i Glyn Price am ei gwmni gyda ni am wythnos. Mae Glyn yn artist ac yn ffyriwr gyda'r bwriad o fynd yn athro celf. Cafodd gyfle i weithio gyda'r disgyblion i gyd ac mae pob un wedi elwa o'r profiad.

Daeth Trevor Delmarr o Syrcas Delmarr atom i ddangos ei sgiliau ac i gynnal gweithdy gyda'r plant hynaf. Ewch draw i'r wefan i weld yr hwyl.

Rydym yn brysur iawn yn yr ysgol ar hyn o bryd yn ymarfer y Dawnsio Gwerin ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Mae gennym un parti Dan 10 ac un parti Dan 12 - ugain o blant yn cystadlu i gyd. Bob lwc iddynt i gyd.

UNDEB Y MAMAU. Cafwyd y Cyfarfod Blynnyddol yn yr ysgol gymuned nos Lun, 5 Chwefror. Croesawodd Arweinydd y Gangen, Mrs Dorothy Jones, bawb i'r cyfarfod a dechreuwyd gyda gwasanaeth byr. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Kath Jones a Miss Meira Williams.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod gafwyd llynedd a phasiwyd eu bd yn rhai cywir. Cafwyd adroddiad gan Dorothy am y cyfarfodydd ar hyd y flwyddyn a diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth. Cafwyd adroddiad gan y Trysorydd, Mrs Joyce Ransom, am y sefyllfa ariannol.

Ethol Swyddogion. Cynigiwyd fod y swyddogion yn gwneud eu gwaith am flwyddyn arall, sef: Arweinydd y Gangen: Mrs Dorothy Jones; Ysgrifennydd: Mrs Hilda Orritt; Trysorydd: Mrs Joyce Ransom; Ymwelydd y Cleifion (Llanrug): Mrs Enid Taylor, (Cwm-y-glo): Miss Meira Williams.

Trafodwyd rhai materion gan Dorothy. Estynnwyd ein cydymdeimlad â Meira yn ei phrofedigaeth. Diolchwyd i Mr Peter Taylor am archwilio adroddiad y Trysorydd. Darllenwyd e-bost wedi ei dderbyn oddi wrth Mrs Margaret Latham, sydd yn America, gan Joyce. Trefnwyd rhaglen am y flwyddyn.

Y gwesteion oedd Mrs Gwyneth Roberts a Mrs Hilda Orritt. Hwyl hefyd roddodd y raffl ac fe'i henillwyd gan Joyce. Diolchwyd i'r gwesteion gan Mrs Gwen Owen. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

PROFEDIGAETH. Yn dawel, ar 29 Ionawr 2007 yng Nghartref Cerrig yr Afon, Y Felinheli, bu farw Mrs Margaret Williams, Goleufryn, yn 85 mlwydd oed. Roedd Mrs Williams, gweddw y diweddar Mr Eric Williams, yn adnabyddus i bawb yn y Cwm ac yn y pentrefi cyfagos fel Mrs Williams Siop Eric, gan i'r teulu fod yn berchen ar y siop ddillad, London House.

Bu ei hangladd yn Amlogfa Bangor ar 2 Chwefror, gyda'r Parchedigion Gwynfor Williams ac Angharad Griffiths yn gwasanaethu. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i merch, Meira, a fu mor ofalus o'i mam ar hyd y blynyddoedd, yn ei phrofedigaeth drist.

DIOLCH. Dymuna Meira ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd ac a fu o gysur mawr iddi. Diolch arbennig i bawb yng Nghartref Cerrig yr Afon, Y Felinheli; i'r Dr Robin Parry a phawb ym Meddygfa Llanberis; i'r Parchedigion Gwynfor Williams ac Angharad Griffiths ac hefyd i Mr Gwynfor Jones o E.W. Pritchard, Llanberis, am ei drefniadau trylwyr.

GENEDIGAETHAU.

Llongyfarchiadau i Arwel a Norah, Talwrn, Ynys Môn, ar enedigaeth merch fach, Olwen Eira, chwaer i Cailin ac wyres fach i Mrs Dilys Jones, 4 Bryn Hyfryd.

Hefyd i Jenny a Robert, 4 Dôl Afon, ar enedigaeth mab, Jack, brawd bach i Elli, Robert a Keith.

DIOLCH. Dymuna Cwil, Margaret, Carys, Rodney, Terry a Keith, Bryn, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl.



Katie Roberts a Conor Handy - Swyddogion Diogelwch y Ffyrdd.

Cŵn Tywys Gwynedd

Cynhelir noson 'Cawl a Chân' i ddathlu Gŵyl Dewi gyda myfyrwyr Canolfan Gerdd William Mathias

yng Nghlwb Golff Caernarfon, nos Wener, 2 Mawrth am 7.00 o'r gloch.

Tocynnau £5
(yn cynnwys lluniaeth)

Ffôn: (01286) 677051
Croeso cynnes i bawb



Gwaith celf efo Glyn Price.



Gwned Pypedau gyda Chwmni Cortyn.

Pryd i Bawb
Bwffe blasus o safon
at bob achlysur

Priodas

Parti

Te Angladdau

Cinio Busnes

CERID MACKINNON

Plas Tirion, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4PY
(01286) 673190



Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Y CLWB 300. Enillwyr y Clwb am fis Ionawr oedd: £40: Mr Erddin Llwyd, Is Eilian; £25: Mr Haydn Jones, Rhandir Mwyn; £10: Mrs Rhian Ellis, Ty'n Llidiart.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Ar 1 Chwefror, yn Festri Eglwys y Waun, cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad. Cyfeiriodd Catherine Jones, y Llywydd, at farwoleth Mrs Peggy Jones, Llechwedd. Roedd Peggy wedi bod yn aelod ffyddlon a gweithgar iawn o'r Sefydliad am flynyddoedd. Bu'n ysgrifennydd am 12 mlynedd a bob amser yn gwneud y gwaith yn effeithiol iawn. Roedd ei gwaith llaw wedi ennill clod uchel iawn mewn llawer o arddangosfeydd. Bydd colled fawr ar ei hôl yn y Sefydliad. Cydymdeimlodd y Llywydd yn ddiffuant iawn gyda'r teulu i gyd.

Cyflwynodd Catherine y gŵr gwadd, sef Mr Dafydd Owen o Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol. Soniodd Mr Owen am y gwahanol gymorth sydd ar gael i'r henoed a'r anabl trwy'r adran. Cafwyd trafodaeth a chwestiynau ar rai o'r materion gan yr aelodau ac aeth Mr Owen ymlaen i egluro'r sefyllfa yn fanwl. Diolchodd Catherine iddo am roi o'i amser i ddod i siarad gyda'r aelodau.

Enillwyd y raffl, oedd wedi ei rhoi gan Mair Williams, gan Iris Evans. Ar 1 Mawrth, disgwylir i blant yr ysgol ddod i'n diddanu.

CANGEN PLAID CYMRU.

O rŵan tan 3 Mai: dosbarthu taflenni a chanfasio ar gyfer Etholiad y Cynulliad.

Sadwrn, 10 Mawrth am 7.00: Noson Eidalaidd yn yr Antur.

Sadwrn, 12 Mai, rhwng 10-2.00: Sêl Cist Car yn Snowdonia Park Hotel (£5 y car - ffoniwch Rob Jones ar 650370, neu Eurig Wyn 6505121).

Sadwrn, 23 Mehefin: Barbaciw - lleoliad i'w drefnu.

DATHLU PEN-BLWYDD.

Llongyfarchiadau i Caryl Lois, Pen Rhiw, ar gyrraedd ei deunaw oed. Dymunwn yn dda i'r dyfodol, Caryl. **ADREF O'R YSBYTY.** Croesawn Mrs Gwendoline Rowlands, 5 Bryn Golau, adref o Ysbyty Gwynedd wedi iddi dderbyn llawddriniaeth. Hefyd Nia Griffith, Stad Tŷ Hen, wedi iddi dderbyn triniaeth yn Ysbyty Gobowen. Dymunwn wellhad buan i'r ddwy ohonoch.

GWELLHAD BUAN. Dymunwn wellhad buan i Mrs Eirian Jones, Bro Dawel, wedi iddi lithro a thorri ei garddwrn, ac i Dr Huw Roberts, ein meddyg teulu, wedi iddo dorri ei goes.

Da deall hefyd fod Mrs Eluned Coles, Bro Waun, wedi gwella ar ôl cael llawdriniaeth ac yn ôl wrth ei gwaith yn yr ysgol.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Mr Richard Owen, Stad Bro Waun, sydd yn Ysbyty Eryri ar hyn o bryd a hefyd at ei chwaer, Laura, sydd yn Ysbyty Gwynedd. Ein cofion gorau hefyd i Gray Jones, Dôl Erddi, sydd yn yr ysbyty. Dymunwn wellhad buan i chi i gyd.

CYDYMDEIMLWN yn ddwys â Chris Gardner, Bodwyn, yn ei brofedigaeth o golli ei fam yn ddiweddar.

Wedi gwaeledd hir bu farw Mrs Peggy Jones, Llechwedd. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i phriod, Robert Hefin, ac â Awen, Pat a Nan a'r teulu yn eu colled a'u hiraeth o golli mam.

Yn dawel yng Nghartref Preswyl y Foelas, Llanrug, yn 91 mlwydd oed, bu farw Mrs Ellen Jones, mam dyner Dylan Rhys, Eryri Wen. Cydymdeimlwn â chi, Dylan, a'r teulu yn eich colled.

DIOLCH. Dymuna Dylan Rhys, Nia, Elgan a Mared, Eryri Wen, a theulu y ddiweddar Ellen Jones (Nel bach Lôn Glai) ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt fel teulu o golli mam a nain arbennig iawn.

Gwerthfawrogir yr holl ymweliadau, cardiau a'r galwadau ffôn. Diolch arbennig i staff Y Foelas, Llanrug, am eu gofal tyner ohoni yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

DIOLCH o galon i bob un ddaeth i ymgymryd â'r gwaith o blygu'r Eco y mis diwethaf. Roedd yn braf croesawu 'plygwyr newydd' at y ffyddloniaid blynyddol. Er ei fod yn rhifyn eithaf trwchus, daethom i ben â'r gwaith cyn hanner awr wedi saith. Diolch arbennig am gael gwneud y gwaith plygu yn yr Ysgol Gynradd. **BEDYDD.** Yn ystod y gwasanaeth boreol fore Sul, 18 Chwefror, gyda'r Parchedig Trefor Jones yn gweinyddu a Mrs Rhian Ellis wrth yr organ, bedyddiwyd Gruffudd Llwyd, mab bychan Mererid ac Erddin Llwyd, Is-Eilian.

EISTEDDFOD YR URDD. Dymunwn yn dda i bob unigolyn, grŵp a pharti fydd yn cystadlu yn Eisteddfodau Cylch yr Urdd ddechrau mis Mawrth. **YSGOL WAUNFAWR**

Y Clwb Brecwast. Mae'r clwb brecwast yn mynd o nerth i nerth ac mae tua hanner cant o blant yn cael brecwast yn ddyddiol. Rhaid canmol eu hymddygiad - a diolch arbennig i Anti Syl, Anti Nia Morris, Anti Nia Llwyd ac Anti Anne am ddarparu a gofalu am y plant.



'Bedydd' go arbennig yng Nghapel y Waun.

Adran y Babanod. Mae'r plant wedi bod yn brysur yn darlunio ac yn peintio anifeiliaid y jyngl gyda'r artist, Heather Lowe. Mae'r gwaith sydd i'w weld yn y coridor yn fendigedig ac yn werth ei weld.

Gwasanaeth Bedydd. Dydd lau, 15 Chwefror, cafwyd gwasanaeth go arbennig yng Nghapel Croes-y-Waun pan gynhaliwyd gwasanaeth Bedydd i gyd-fynd â'r gwaith thema am y tymor. Diolch i'r Barchedig Gwenda Richards am ein harwain trwy'r ddefod ac i blant Blwyddyn 1 a 2 am wneud eu gwaith mor dda.

Myfyrwraig. Rydym yn ffarwelio am y tro gyda'r fyfyrwraig, Miss Ceri Ellis, sydd wedi treulio 6 wythnos ar ymarfer dysgu yn nosbarth Miss Mandy Roberts. Dymunwn yn dda iddi i'r dyfodol.

Yr Adran Iau. Ddydd Mercher, 7 Chwefror, bu plant o'r Adran Iau yn cynnal Gweithdy Barddoniaeth gyda Bardd Plant Cymru: Gwyneth Glyn. Roeddynt yn ysgrifennu barddoniaeth a chysylltu gyda Gwyneth drwy gyfrwng y we. Dyma rai o'r penillion a wnaethant:

Pe bai 'ngwallt wedi'i wneud o licrys a fferins coch yn ffurfio 'ngwefus, a llygad fel dwy oren a law deilen oddi ar y goeden.

Pe bai'r lleud yn gallu siarad byddai'n dechrau ffad, Gwisgo dillad hip a cŵl a dawnsio lawr y stryd fel ffwl.

Pe bai Gruff yn gallu nofio bysa fo yn dda am gofio, Byth yn nofio o dan y cysgod Ac yn siarad efo'r pysgod.

Pe bai 'ngwallt wedi'i wneud o licrys a fferins coch yn ffurfio 'ngwefus, fy corff wedi wneud o jeli, mi fysai mor felys â loli.

Pe bai'r lleud yn gallu siarad Byddai'n cael trip yno efo Angharad, Sgipio o gwmpas a chat bach sydyn Ac wedyn campio yno yng nghwmni'r mwydyn.

Pe bai Cai yn ennill y loteri Bysa fo yn prynu hen lori, Lori fach goch Sydd yn llawn o foch.

Mae yna ddyn yn byw ym Mangor sydd wastad yn gadael popeth ar agor, drws ei dŷ a botwm ei grys oherwydd ei fod ar ormod o frys.

Mae yna ddyn yn byw yng Nghaerdydd sydd wastad yn gweithio i'r heddlu bob dydd, O amser i amser, mae hi'n crasio ei char Pan mae hi yn bwyta siocled bar.

Mae yna ddyn sydd yn byw yn Caethro Sydd yn nofio efo siarcod bron iawn bob dydd Mae efo gwallt brown a llygaid coch, Mae'r siarcod ffyrnig wedi torri ei foch.

Cwmni'r Frân Wen. Dydd lau, 8 Chwefror, bu plant Blwyddyn 5 a 6 yn gwylio perfformiad Cwmni'r Frân Wen o 'Tyrd Adre'. Mae safon uchel perfformiadau'r cwmni wastad yn gwneud argraff ar y plant. Diolch i lola Ynyr am ei gwaith.

Plannu Coed. Fore dydd Gwener, 16 Chwefror, bu plant yr Adran Iau yn plannu 65 o goed bedw wrth glawdd yr ysgol ar y cae. Diolch eto i Anna Williams, mam Peter a Tim, ac i Dewi a'i ffrindiau o'r Antur am roi eu hamser i gydweithio gyda'r plant. **Anti Luned ac Anti Nia Griffith.** Da yw gweld Anti Luned yn ôl yn ei gwaith wedi ei llawdriniaeth. Dymunwn hefyd wellhad buan i Anti Nia Llwyd ar ôl ei llawdriniaeth hithau. Yn ei habseboldeb bydd Anti Rhiannon Williams yn ymgymryd â'r gwaith. Estynnwn groeso cynnes iawn iddi i'n plith.

Gorsaf Betrol Beran Deiniolen.



Golchi a l'nau Ceir

Ar agor 7yb - 9yh bob diwrnod
Petrol, Diesel, Nwy Calor a Glo
Loteri, Papurau Newydd
Off Licence, Bake'n Bite
Brechdanau a Diodydd Poeth

Costcutter



01286 871521

Colofn y Plant

Clwtyn Criw Triw

Blant, Blant,
Mi ofynnwyd imi, Sbonach
Mawr, ddweud rhyw struth-
struth stwrshlyd wrthych chi.
Ydi, ydi, y mae Sbonach Bach
'dwribidirw' ar ei wyliau! Ia,
gwyliu arall, a'r tro yma
penderfynodd hedfan ar gefn
clamp o aderyn storc i wlad
llawn gwres, heb iddi genllysg,
eira, glaw, mellu, niwl, rhew na
tharanau. Y mae hi mor boeth
yno nes bod menyngwr a marjarin
yn toddi'n un llyn yn y
rhwgelloedd!
Blant, blant, be wnewch chwi o
hwn?



Ia, nyth ydi o! Nythod ydi
mwy nag un. A dyma ble mae
adar a rhai creduriaid bychain
yn byw hyd nes iddynt dyfu'n
fawr. A phwy sy'n gofalu
amdanyn ac yn cludo bwyd
iddynt? Ia, eu mamau a'u tadau.
Rhieni ydi'r gair arall am dadau


a mamau. Ond nid pawb sy'n
byw mewn nythod!

Eich gwaith chi y mis hwn
ydi mynd â'r crearudiaid adra
i'w nythod. Camp i chi ddweud
beth sy'n byw mewn nyth!

Cofiwch holi adra, neu holwch
eich cyfeillion, hynny ydi os
nad ydych chi'n gwybod yr
atebion! O! ia, ia, ydi! ydi! ydi!
y mae'r atebion i gyd ar gael ar
waelod dudalen.

Hwyl

SBONACH MAWR



GwalltGo

Stryd Goodman, Llanberis
(Tu ôl i'r Bistro)

Siop trin gwallt
Merched, Dynion
a Phlant

Cysylltwch â Dilys neu Ffion

01286 872414

Oriau agor:

Mawrth - Iau: 9am - 5.30pm

Gwener: 9am - 7.30pm

Sadwrn: 9am - 4pm

A gawsoch chi'r atebion
cywir?

Yn y nyth, nyth, nythod:
2. Elliw'r wenyneuen meirch a'i
chwiorodd yn eu nyth papur
llwyd.
5. Ffibi bol meddal, yr iâr -
nyth mewn pant yn y gwaith.
6. Nogw'r pysgodyn tri phigyn
(Brest goch, neu'r Doctor Coch,
yn enwau eraill arno - y Mistar
yn gofalu am y nyth yn y pwl
neu'r ffos ac yn ysgrwyd ei
gynffon er mwyn cadw'r dŵr yn
lan!)
Heb fod yn y nyth, nyth, nythod:
1. Huwco'r ceffyl; 3. Mogw, yr
elliant o'r India; 4. Tŵ Ddel,
y gath; 7. Chwim, y glöyn byw;
8. Dwnw, y gwynnigen lwyd; 9.
Pryddarch, y falwen ddistaw;
10. Gwennu, y fuch orau.

CORNEL BWRLWM ERYRI

Cewri Bwlch y Ddeufaen.




Un tro, roedd cawr a chawres yn brasgamu o gyfeiriad Dyf-
fryn Conwy draw am Abergwyngregyn. Er eu bod nhw'n
dod o ardal fynyddig hardd, roedden nhw newydd glywed
fod yna le gwell i fyw yr ochr draw i afon Menai!

Er mwyn medru croesi'r culfor i Ynys Môn roedden nhw
wedi penderfynu cario dwy garreg fawr ar eu cefnau er
mwyn codi pont. Ond ymhell cyn cyrraedd y Fenai,
daethant i gwr cerddwr arall. Dechreuodd y tri sgwrsio, a
dywedodd y cerddwr ei fod wedi dod yr holl ffordd o Fôn.

Gofynnodd y cawr a'r gawres pa mor bell oedd y Fenai ac
Ynys Môn, gan fod y ddau wedi dechrau blino a'r cerrig
wedi mynd i deimlo'n drwm erbyn hyn. Eisteddodd y
cerddwr a thynnu ei 'sgidiau cyn ateb— "Welwch chi wad-
nau fy 'sgidiau? Wel, cyn i mi gychwyn ar fy nhaith hed-
diw o gyrion y Fenai, mi ges wadnau newydd, ond erbyn i
mi gyrraedd fan hyn, mi welwch chi eu bod nhw wedi gwis-
go'n dwll. Dyna pa mor bell ydi hi at lan y Fenai ac at
Ynys Môn."

Syllodd y cawr a'r gawres ar y cerddwr druan ac ar y tyllau
mawr yn ei esgidiau. Penderfynodd y ddau yn y fan a'r lle
fod Ynys Môn yn llawer rhy bell, a gollyngodd y ddau eu
llwyth o gerrig trymion wrth eu traed.

Choeliwch chi byth, ond mae'r cerrig yno o hyd mewn lle
o'r enw Bwlch y Ddeufaen. A'r cawr a'r gawres? Er nad
oes neb wedi eu gweld nhw ers blyneddau, mae nhw'n
dal i fyw yn fodlon yn yr ardal fynyddig honno rhwng Dyf-
fryn Conwy ac Abergwyngregyn, medden nhw.



CLIWIAU I'R CROESAIR

1. O ba gyfeiriad y daeth y cawr a'r gawres?
2. Pa afon neu gulfor roedden nhw'n bwriadu ei groesi?
3. Be roedden nhw yn eu cario er mwyn codi pont?
4. Beth oedd yng ngwadnau esgidiau'r cerddwr?
5. Ar ôl gweld y tyllau, mi benderfynodd y cawr a'r gawres fod Ynys Môn yn rhy ____.
6. Beth ydym yn galw'r lle y gadawodd y cewri'r cerrig?

Mae llawer o straeon tebyg am gewri yn Eryri a thu
hwnt. Os gwyddost am rai o'rh ardal di, gad i mi wybod!

Elin Alaw, Swyddog Bwrlwm Eryri
01766 772 532 / elin.alaw@eryri-npa.gov.uk

Mae Bwrlwm Eryri yn hybu treftadaeth ddiwylliannol ac fe'i cefnogir gan:



LLYFRAU DIFY R

Mae cyhoeddiad diweddar nofel raffeg *Y Derwyddon: Dirgelwch yr Ogam* (Dalen, £9.99) yn nodi datblygiad cyffrous ym myd llyfrau Cymraeg.

Gyda chymaint o ffilmiau Hollywood bellach yn seiliedig ar nofelau graffeg, mae'r diwydiant penodol hwn wedi tyfu mewn poblogrwydd dros y blynyddoedd diwethaf. O *X-Men* i *Men in Black*, *Spider-man* i *American Splendour*, mae byd y nofelau graffeg bellach yn apelio i'r brif ffrwd yn ogystal â'r rhai hynny ohonom sy'n dotio ar dechnoleg a ffuglen wyddonol. A bellach, gall hefyd ddiwallu'n diddoreb ni'r Cymry, diolch i gwmni cyhoeddi Dalen.

Wedi ei leoli yn Nhresaith, Ceredigion, mae'r cwmni wedi ennill ei blwy fel arbenigwr y byd penodol hwn, yn enwedig gyda chyhoeddi diweddar cyfrol *Y Derwyddon: Dirgelwch yr Ogam*.

Dyma'r gyntaf mewn cyfres gothig iasoer wedi ei lleoli yn Oes y Seintiau yn y 5ed ganrif. Yn addasiad o'r gyfrol Ffrengig *Les Druides: Le Mystere des Oghams*, mae'r gyfrol yn dilyn hynt tiriogaethau'r Brython, a'r cynnwrf a achosir gan wendid cynyddol Ymerodraeth Rhufain, ac yn trafod y gwrthdaro a ddaw yn sgil cyflwyno credoau newydd.

Mae gorthrwm yr Eingl-Saesn tua'r dwyrain yn sbarduno nifer o'r Brythoniaid i sefydlu gwladfa newydd Llydaw, yn Armorica yng ngwlad Gâl. Yn cyrraedd yn eu sgil mae arweinwyr ysbrydol yr Eglwys Geltaidd - y mynachod Cristnogol - a'r grefydd newydd yn darogan tranc yr hen ffydd oedd yn gweld einioes a bywyd yn y coed a natur.

Ond mae'r hen draddodiadau yn parhau i ddal eu tir, a gyda hynny mae Gwynlan, Derwydd ola Llydaw, a'i ddisgybl Taran, yn cael eu hunain yng nghanol ymgiprys milain yn erbyn mynachod yr Eglwys. Daw cyhuddiadau o lofruddiaeth, aberth dynol a dewiniaeth o bob cwr, ond mae'r hen dduwiau wrth law i gynorthwyo'r cyfiawn.


Dyma gyfrol afaelgar yn llawn darluniau celfydd, sy'n addas ar gyfer darllenwyr yn eu harddegau a hyn. Meddai Alun Ceri Jones o gwmni Dalen:

'Y syniad oedd atgyfodi'r traddodiad 'straeon sribed' Cymraeg fel y bydda i'n eu galw nhw, ac mod i'n synhwyro bod cynulleidfau allan yna iddynt.

'Fe gyhoeddodd ni *Y Derwyddon* gan fod yna gysylltiad Celtaidd Cymraeg penodol yn perthyn iddo. Mae wedi ei osod 'nôl yn y bumed ganrif pan oedd y Brythoniaid yn cymud mae i

Lydaw, ac mae'n rhywbeth sy'n perthyn i'n hanes ni fel Cymry yn ogystal â bod yn ddifyr iawn i'w ddarllen.'

Mae'r gyfrol glawr caled fendigedig bellach ar gael i'w phrynu yn eich siop lyfrau lleol.




Tamaid amheuthun ym myd y llyfrau

Maent yn rhan hanfodol o unrhyw banded foreol neu de prynhawn, ond faint wyddech chi am y gacen gri, neu'r pice bach? Yn y gyfrol newydd sbon *Dathlu Gwyl Ddewi*, (Gwasg Carreg Gwalch, £6.99) bydd Elin Meek yn cyflwyno hanes y pice, yn ogystal â thrafod sawl agwedd arall o Gymru a Chymreictod.

Mae'r 'deisen' amheuthun yma'n fwyd traddodiadol i'w fwyta ar ddydd Gwyl Ddewi, felly beth am roi cynnig ar bobî'ch Pice eich hunain trwy ddilyn rysait o'r gyfrol?

Os nad yw dylino a choginio at eich dant, mae gan y gyfrol sawl gweithgaredd arall i'w cynnig hefyd, gan gynnwys creu eich cenhinen Bedr eich hun. Mae *Dathlu Gwyl Ddewi* hefyd yn llawn dop o ffeithiau difyr am ein nawddsant, o hanes ei fywyd i'r chwedlau a'r gwyrthiau a gysylltir ag ef. Cynigia'r gyfrol hefyd olwg ar y rhesymau pam fod cennin, cennin Pedr a'r Ddraig Goch oll yn symbolau o Gymru; yn ogystal â chynnig golwg ar wisgoedd traddodiadol a newydd.

Dathlu Gwyl Ddewi yw'r



ail gyfrol yng nghyfres Hwyl Gwyl, a daw yn sgil llwyddiant y gyntaf, *Dathlu Calan Gaeaf*. Meddai Myrddin ap Dafydd o Wasg Carreg Gwalch,

'Fel rhiant fy hun - dwi'n teimlo'i bod hi'n hanfodol bwysig ein bod yn cynnig ymwybyddiaeth o'n traddodiadau, ein harferion a'n hanesion i'r genhedlaeth iau.

Y gobaith gyda chyfres Hwyl Gwyl yw gwneud hynny mewn modd ddifyr a diddorol, ac fel rhywbeth y gall rhieni a'u plant, neu ddosbarthiadau ysgol, wneud gyda'i gilydd.'

Mae'r gyfrol yn ddelfrydol ar gyfer dathliadau Mawrth 1af, ond mae ganddi hefyd ddigon i'w gynnig gydol y flwyddyn. Felly beth am roi cynnig arni? Dyma ganllaw'r gyfrol ar sut i wneud cacen gri:

Byddwch angen:

- 500g o flawd codi
- 125g o fenyn neu fargarin
- 125g o fraster llysiau
- 200g o siwgr
- 200g o gwrens
- 2 wy

Dull

1. Rhoi'r radell ar y stôf i dwymo ymlaen llaw.
2. Rhidyllu'r blawd codi i bowlen fawr.
3. Rhwbio'r menyn neu'r margarin a'r braster llysiau i'r blawd nes bod y cyfan fel briwsion bara.
4. Ychwanegu'r siwgr a'r cwrens.
5. Gwneud twll neu byded yng nghanol y cymysgedd. Curo'r

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED. Nos lau, 18 Ionawr, cafwyd noson yng nghwmni Neville Hughes, Bethesda, yn sôn am ddyddiau cynnar y grŵp enwog 'Hogia Llandygai. Carol Huston a Gwenda Roberts baratodd y lluniau ar y terfyn.

Nos lau, 15 Chwefror, trefnwyd noson arbennig gan y gangen leol. Cynhaliwyd Sioe Ffasiynau yng Nghanolfan Mynydd Gwefru, Llanberis, oedd yn arddangos dillad o siop Baffino, Porthaethwy. Roedd yr ymdrech hon yn rhan o ymdrech y gangen i godi arian i Ysgol Pendalar, cronfa a sefydlwyd ganddynt ddeunaw mis yn ôl. Rhoddwyd targed o £10,000 ac erbyn hyn mae'r gronfa'n sefyll ar £9,500 yn dilyn elw y noson arbennig hon o £300.

MARCHNAD Y FFERMWYR. Bydd y farchnad nesaf yn y Mynydd Gwefru, Llanberis, ddydd Mercher, 7 Mawrth.

COFION. Yn dilyn cyfnodau mewn ystyby anfonwn gofion at Eirianwen Evans, 1 Ffrwd Madog, a Monica McKafferty, 10 Trem Eilian.

CANOLFAN DYLUNIO A MENTER ERYRI. Cafodd y Ganolfan sylw arbennig ar un o raglenni S4C nos Lun, 29 Ionawr: *Helpu'r Achos*. Roedd y rhaglen ddogfen wedi ei ffilmio dros gyfnod o chwe mis yn ystod 2006 ac yn olrhain nod, gweithgareddau a phroblemau cyllid y Ganolfan. Rhoddwyd awgrymiadau gan dri arbenigwr sut i geisio goresgyn yr anawsterau a bu i'r tim rheoli yn y cyfamsr ymateb yn gadarnhaol i'w syniadau.

Ddechrau Chwefror cafodd y Caffi yn y Ganolfan adroddiad tra ffatriol

ddau wy yna eu harllwys i'r pydew.

6. Defnyddio'r fforc i gymysgu'r cyfan yn raddol. Erbyn y diwedd dylai'r cymysgedd ddod yn belen fawr, sy'n codi'n lân o'r bowlen. Os nad ydych eisiau bwrw ymlaen â'r gwaith o rollo'r cymysgedd, torri a choginio'r pice, gallwch gadw'r belen o does yn y cwpwrdd oer am ddiwrnod neu ddau.

7. Rhoi ychydig o flawd dros y man lle byddwch yn rholio'r toes.

8. Torri'r toes yn ei hanner, fwy neu lai, ac yna ei rollo â rholbren yn gylch mawr nes ei fod tua hanner i dri chwarter centimetr o drwch.

9. Defnyddio'r torwyr bach crwn i dorri'r pice.

10. Rhoi'r pice ar y radell yn ofalus a'u coginio am ryw 3 munud bob ochr. Ond bydd angen cadw llygad arnynt, rhag ofn iddynt losgi!

11. Eu gadael i oeri a'u gweini gyda siwgr. Bydd rhai pobl yn taenu menyn arnynt hefyd!

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon
Ffôn: (01286) 871820

LLONGYFARCHIADAU mawr i Kate Pritchard, Fron, am basio ei Gradd 1 Piano gydag anrhydedd.

BRYSIWCH WELLA. Anfonwn ein cofio at Alice Searell, 4 Nant Ffynnon, sydd yn yr ystyby ar hyn o bryd.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Jini Jones, Dwyfor, yn ei phrofedigaeth o golli brawd annwyl, Elwyn Evans.

gan y *Daily Post* yn eu cyfres 'Taste Test'.

Mae'r sylw hyn ar y cyfryngau ac yn y wasg wedi ychwanegu'n fawr at boblogrwydd y Ganolfan a'r busnes yn y caffi, yn ôl y gyfarwyddwraig, Eluned Davies.

PROFEDIGAETH. Daeth y newydd trist am farwolaeth Elwyn Griffith Evans (gynt o Bant y Buarth) yn frawychus o sydyn yn 64 mlwydd oed yn Dunstable, Bedford. Cydymdeimlwn fel ardal yn dddwys iawn â'i holl fordyr a chworydd a'u teuluoedd, yn arbennig yma ym Mrynrefail ym Mhant y Buarth, Min y Don, Ty'n Twll, Minafon a Thy'n Buarth.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD Cafwyd oedfa arbennig nos Sul, 11 Chwefror, dan arweiniad y Parchg Harri Parri, Caernarfon, pryd y gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd.

Mae Ysgrifennydd Cymdeithas y Capel, Mr John McBryde, wedi dwyn ynghyd y rhaglen am dymor 2007 ac wedi sicrhau arlwy amrywiol a diddorol ar gyfer y cyfarfodydd ar yr ail nos lau o bob mis, o fis Ebrill ymlaen. Cyhoeddir y Rhaglen maes o law. Mae croeso cynnes i bawb ymuno yn y cyfarfodydd hyn.

OEDFAON MAWRTH 2007.

4: am 10.00: Mr Alun Rowlands, Bangor;

11: am 10.00: Parchg Gwynfor Williams, Caernarfon;

18: am 5.30: Parchg Dafydd Lloyd Hughes;

25: am 10.00: Parchg Emrys Thomas, Caernarfon.

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

Cofnodion Drafft Chwefror 2007
Cofnodion cyfarfod nos Iau y 15fed o Chwefror, 2007.

Presennol ac Ymddiheuriadau

Ward Padarn: Gavin Allsup, Emlyn Baylis, Barry Davies, Elwyn Davies, Olwen Gwilym (Cadeirydd), Derek Jones, Fred Owen, Douglas Pritchard, Trystan Thomas

Ward Peris: Iola Owen, Gwenda Roberts

Ymddiheuriadau: Helen Sharp

Croeso

Estynnwyd croeso i Barry Davies i'w gyfarfod cyntaf ers ei gyfethol yn aelod o'r Cyngor.

Datgan Buddiant
Dim

Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Iau y 18fed o Ionawr, 2007.
Cynnig ac eilio: FO / DP

Materion yn codi o'r Cofnodion

- Presenoldeb: Adroddodd y Clerc iddo gysylltu â Raymond Jones ynglŷn â'i aelodaeth o'r Cyngor, ond dywedodd Mr Jones ei fod, oherwydd pwysau gwaith, yn dewis ymddiswyddo. Diolchwyd iddo am ei gyfraniad. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau feddwl am enwau ar gyfer aelod newydd posib ar gyfer llenwi'r sedd wag.
- Cofnodion: Diolchwyd i'r Clerc am roi crynodeb o gofnodion drafft y cyfarfod diwethaf yn *Eco'r Wyddfa*, ac am gynnwys hysbyseb ar gyfer Cronfa Cymorthdaliadau Bychan. Adroddwyd y bydd copi o gofnodion Ionawr yn cael eu gosod yn y Llyfrgell.
- Adroddwyd na chyflwynwyd cais cynllunio ar gyfer Glyn Peris, Nantperis, i gyfarfod diwethaf Pwyllgor Cynllunio

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE). Yn ôl y Clerc roedd yr Awdurdod yn anhapus â safon y ceisiadau a gyflwynwyd a chynhelir trafodaeth yn fuan rhwng swyddogion yr APCE a'r datblygwyr.

- Cartrefi.com: Cafwyd trafodaeth ar y syniadau o fewn 'Cartrefi.com', dogfen bolisi y mudiad 'Cymuned'. Roedd amryw o'r farn nad mater syml oedd cynllunio, ac nad oedd hi'n ymarferol cyfyngu datblygiadau tai newydd i rai 'fforddiadwy' yn unig er cymaint y boen am brisiau tai a oedd tu hwnt i gyrraedd trigolion lleol, yn enwedig prynwyr cyntaf. Gan nad oedd unfrydedd ar y mater penderfynwyd ei adael ar y bwrdd.

Cynllunio

Cyngor Gwynedd:

- C07A/0059/15/LL: Estyniad - 23 Maes Padarn, Llanberis. Dim sylw.
- C07A/0037/15/LL: Codi Ffens a Giatiau Diogelwch - Y Glyn, Llanberis. Dim sylw.
- C06A/0906/15/LL: Newid bychan i gais am godi tŷ - 9 Llainwen Uchaf, Llanberis. Yn anffodus doedd dim eglurhad ynglŷn â'r newid.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE):

NP3/15/87C: Newid defnydd o fwncws i dŷ annedd - Bwncws, Gwastadnant (Snowdon House), Nantperis.

Wedi eu Caniatáu
CG: Dim.

APCE:

- NP3/15/78B: Ailadeiladu cyn sgubor fel byncws - Ceunant Isaf, Nantperis.

Gohebiaeth

- CG - Llythyr yn gwahodd cynrychiolwyr o'r Cyngor i drafod materion yn ymwneud â

phedwar maes efo swyddogion o Gyngor Gwynedd. Mae hwn yn ddigwyddiad blynyddol. Eleni bydd cyfle i godi cwestiynau ynglŷn â Phriffyrdd, Bwdesitrefol a Thrafnidiaeth; Dadgrimalleiddio Gorfodaeth Parcio; Rheolaeth Adeiladu; Amgylchedd o Ansawdd. Cynigiwyd enwau DJ a TT, ynghyd â'r Clerc, i fynychu'r cyfarfod.

Materion a awgrymwyd i'w trafod oedd: Dŵr ar y ffordd yn Nant Ucha, Nantperis; Llwybr o'r pentref i'r Bwlch; Trefniadau teithio argyfwng o Ben Llyn i Llanberis pan fo ffordd yr A4086 ar gau; Cyfyngiadau gyrru ar Stryd Goodman a Field Terrace, a'r Cynllun un-ffordd arfaethiedig ar gyfer Stryd Turner a Field Terrace, Llanberis; Problemau gyrru yn Nantperis; Ansawdd a golwg adeiladau newydd.

- Derbyniwyd Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub (Cymru) 2005 (Diwygiadau (2007) a'r Protocol Ymyrraeth oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC).
- Derbyniwyd llythyr oddi wrth LICC yn nodi'r Swm Priodol o adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 y medr y Cyngor Cymuned (CC) ei wario at ddibenion penodol nad ydynt wedi eu caniatáu fel arall. Hefyd llythyr yn nodi Arferion Benthycu Cyngorau Cymuned a Thref yn 2007-08 a Newid y Cyfnod Ad-dalu.
- Gwahoddiad i ailymaelodi â 'Un Llais Cymru', ynghyd â chopïau o'r cylchgrawn *Y Llais*. Penderfynwyd ailymaelodi.
- Derbyniwyd llythyr oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru yn amlinellu sut y mae'r Heddlu yn gwario ei arian ar wahanol fathau o swyddogion, yn enwedig ar 'weithgareddau plismona rheng flaen'.

Yn sgil y llythyr, cafwyd trafodaeth ar blismona yn Llanberis. Holwyd a oedd yma Reolwr Rhawd Cymunedol ar ôl ymadawiad yr un blaenorol. Faint o blismyn sydd yn Llanberis, a tybed a oedd diben eu gwahodd i gyfarfod y CC? Adroddwyd mai tila iawn fu ymateb y cyhoedd i gyfarfod cyhoeddus gan yr Heddlu yn y pentref yn ddiweddar, er i'r cyfarfod gael ei aildrefnu. Dywedodd y Clerc y byddai'n holi beth ydi'r sefyllfa.

- Cafwyd copi er gwybodaeth o lythyr a anfonwyd oddi wrth Rheilffordd Llyn Padarn (RhLIP) at Warden Parc Padarn yn ymwneud â llwybr trwy'r Orsaf newydd. Gan nad oedd y llythyr yn glir iawn gofynnwyd a fyddai modd cael eglurhad pellach.
- Adroddwyd bod llythyr oddi wrth CG yn nodi bod y Cynllun Rhyddhad Trethi Gwledig yn dod i ben ac y byddai trethi Storws Ffordd Capel Coch ac Angorfa yn dyblu yn y flyddyn ariannol nesaf.
- Llythyr oddi wrth APCE ynglŷn â Chynllun Datblygu Lleol Eryri (APCE) ac arolwg o safleoedd posib i'w hystyried ar gyfer eu

datblygu yn y dyfodol. Dyddiad cau ydi'r 27ain o Ebrill. I'w ystyried yn y cyfarfod nesaf.

- Papur Ymgynghori ar Byrddau Gwasanaethau Lleol Gytundebau Gwasanaethau Lleol oddi wrth LICC.
- Llythyr yn nodi faint o wrthwynebiadau a gafwyd i Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2004 a'r hyn sydd i ddigwydd nesa.
- Derbyniwyd 'Creu'r Cysylltiadau - Cyflawni ar Draws Ffiniau' - adroddiad LICC ar weddnewid gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn dilyn argymhellion Adroddiad Beecham.
- Copi o lythyr oddi wrth CG at ysgrifennydd Y Ganolfan, Llanberis, mewn perthynas â difrod i giât a ffens yng Nghae'r Ddôl, a'r bwriad i leoli giât mochyn yno.
- Trefniadau casglu gwastraff newydd gan CG, y polisi 'Cau Caead' ac ailgylchu deunydd gwastraff o'r ardd.
- Manylion o arolwg APCE o lefydd agored yn y Plwy sydd o fewn y Parc Cenedlaethol. Roedd amheuaeth ynglŷn ag ambell un - y Clerc i gysylltu.
- Llythyr oddi wrth Rol Williams, Y Waunfawr, yn holi a oes modd i'r CC gysylltu â'r swyddog Adfywio lleol i weld a ellir sicrhau arian i ddiogelu cragen/adfail Capel Hebron. Penderfynwyd estyn gwahoddiad i Dafydd Einion Jones i ddod i gyfarfod mis Ebrill o'r Cyngor i drafod hynny a rhai materion eraill.

Y Fynwent

Wedi ystyried prisiau mynwentydd eraill a gasglwyd gan y Clerc a'u cymharu gan ED mewn taflen a rannwyd i'r aelodau, penderfynwyd bod angen codi'r ffioedd ar gyfer y Fynwent.

Penderfynwyd yn unfrydol fel â ganlyn.

Agor bedd newydd £80 (£120); Claddu £50 (£100); Ailagor bedd £40 (£60). Mae'r ail bris, mewn cromfachau, ar gyfer rhai sydd heb fod yn byw yn y Plwyf adeg y brofedigaeth, ond sydd unai'n hanu oddi yma neu wedi byw yma yn y gorffennol am gyfnod sylweddol.

Penderfynwyd na fydd ffi am gladdu plentyn ac na fyddai ffi chwaith am ymchwiliad o'r gofrestr. Mae'r ffioedd yma yn cymharu yn ffafriol iawn â mynwentydd cyfagos.

Cynnig FO / TT.

Grantiau

Oherwydd prinder amser penderfynwyd dynodi arian o'r Gronfa Cymorthdaliadau Bychan y mis nesaf.

Unrhyw Fater Arall

- Cafwyd cwyn bod arwydd tu allan i siop V12 yn rhwystro trigolion mewn cadair olwyn rhag defnyddio'r palmant.
- Yn ôl IO mae'r twll yn y palmant yn Nantperis yn dal heb ei drwsio, er fod arhosfan bws newydd wedi ei greu gerllaw yn ddiweddar.

Cyfarfod Nesaf

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau y 15fed o Fawrth, 2007 am 7 yr hwyr.



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076**

i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth

8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu

e-bost: **williamsgw@parliament.uk**

YSGOL BRYNREFAIL



Tîm Pêl-droed Genod dan 14 Ysgol Brynrefail ar ôl curo Ysgol Castell Alun, Yr Hob, gyda'u hyfforddw, Mr Gareth Davies.

Pêl-droed Genod Ysgol Brynrefail

Llongyfarchiadau i ddau o dimau pêl-droed genod Ysgol Brynrefail am gyrraedd rownd go-gynderfynnol Cwpan Cymru. Llwydd yr hogiau brofodd lwyddiant yn y gwpan ond eleni tro y genod ydyw.

Yn yr 16 olaf, curodd y tîm dan 14 Ysgol Castell Alun, Yr

Hob, 4-2 o giciau o'r smotyn ar ôl brwydro'n galed i ddod 'nôl yn gyfartal ar ôl bod 3-1 i lawr.

Mae'r tîm dan 12 (Blwyddyn 7) wedi cyrraedd yr wyth olaf drwy chwalu Ysgol Alun, Yr Wyddgrug 13 gôl i ddim!

Pob lwc i'r ddau dim fydd yn chwarae yn erbyn Ysgol Syr Hugh Owen nesaf yn y ddwy gystadleuaeth.


Traws Gwlad

Unwaith eto eleni, mae disgyblion Ysgol Brynrefail wedi profi cryn lwyddiant yng nghystadlaethau rhedeg traws gwlad.

Ar Fawrth 18fed fe fydd saith disgybl yn cyrychioli Eryri ym Mhencampwriaeth Traws Gwlad Cymru yn Aberhonddu ar ôl cyrraedd y deg uchaf ym Mhencampwriaeth Eryri (Gwynedd, Conwy a Mon), a gynhaliwyd yn Nolgellau yn ddiweddar: Elin James a Ceri Roberts (Blwyddyn 7); Ezra Warren a Hannah Hellfeld (Blwyddyn 8 a 9); Victoria Taylor, Llion Jones ac Andrew Woodcock (Blwyddyn 10 ac 11). Pob llwyddiant iddynt yn Aberhonddu.



Elin James a ddaeth yn 1af a Ceri Roberts oedd yn 10fed yng nghystadleuaeth Traws Gwlad Genethod Blwyddyn 7 Eryri.



(Rhes ôl) Robert Morris, David Jones (Prifathro yn y 60au); Glynne Jones, Cemeg; Ieuan James (Physeg - Prifathro yn y 50au); G. Powell Jones (Daearyddiaeth); Lewis Jones (Miwsig); (Blaen): Olwen Lewis (Ffrangeg); Persis Hughes (Gwyddor Tŷ); Emrys Thomas (Prifathro yn y 40au); Gwyneth Evans (Hanes); Catherine Evans (Cymraeg); Miss Otter (Bywydeg ac Ymarfer Corff).

Atgofion am Ysgol Brynrefail

Yn ystod yr wythnos cyn Nadolig 2006 derbynais lythyr gan Megan Roberts, Neuadd Lwyd, Trefor, a oedd yng Ngholeg Busnes Bangor hefo mi yn 1947 - rydym wedi bod yn ysgrrifennu i'n gilydd ers rhai blynnyddoedd. Yn amgaeedig roedd erthygl Rhiannon Roberts ar Ysgol Brynrefail a llun yr athrawon yn 1933. Euthum i'r sillf lyfrau a chael hyd i lyfr *Hanes Ysgol Brynrefail* ac amgaeaf gopi o lun y staff yn 1939.

Bûm yn ddisgybl ym Mrynrefail o fis Medi 1943 hyd y Pasg 1947, a chofiaf fel yr oedd Mr Emrys Thomas yn flin nag oeddwn am aros i eistedd arholiad y 'Senior'. Cofiaf ei golled pan foddwyd ei fab, Emrys, tra'n rhwyfo yn y ras gychod rhwng Caergrawnt a Rhydychen.

Cofiaf yn dda am Robert Morris yn gwithio Saesneg i'n pennau. 'I comes before E except after C' a chlywaf ei lais pan fyddaf yn amau sut i sillafu gair Saesneg. Arferai bwyso yn erbyn y 'fireguard' o flaen y tân agored yn ystod y gaeaf. Un diwrnod aeth ei gown ddu yn rhy agos i'r fflamau ac er nad aeth ar dân, bu ôl y deifio arni trwy weddill fy ngyrfa yno. Un diwrnod roedd fy meddwl ar ryw beth gwahanol i'r wers ac yn sydyn daeth 'duster' y bwrdd du heibio fy mhen a'm deffro, 'Stop chewing like a heifer,' meddai. Wnes i ddim cyffwrdd mewn 'chewing gum' byth wedyn. Gwelais y 'duster' yn fflio drwy'r awyr droeon ond welais i neb yn cael niwed oddi wrtho. Atgofion melys nad oeddwn yn eu gwerthfawrogi ar y pryd.

Ieuan James oedd yn dysgu Physeg. Doedd dim bai arno fo ond doeddwn i'n dysgu dim o'r pwnc. Un peth a ddysgais ganddo oedd ei fod yn 'ambidextrous' - gallu defnyddio ei ddwy law i wneud rhywbeth. Byddaf yn meddwl amdano pan fydd fy llaw chwith yn gwrthod gweithio fel y dylai. Cofiaf y car BNY90 yn dda. Bryd hynny byddai W. Vaughan Jones a Mary Parry (Biology) yn teithio i'r ysgol ynddo.

Bu M. Vaughan Jones (Miss Parry, Biol, gynt) yn aros ar ein haelwyd yma ddwywaith yn Awstralia a chefais fod yn ei chwmmi ar drip i'r Barrier Reef i weld y cwrel. Roedd hi'n 'Walking

Encyclopedia' ac yn cofio nifer o'r plant oedd ym Mrynrefail yr un adeg â mi.

Glynne Jones, Cemeg. Ddysgais i fawr dan ei ofal ef chwaith, ond cofiaf yn ystod y gwersi Cemeg cyntaf i ni fel plant orfod rhoi ein pennau yn y Gas Cabinet. Ych â fi, am ddrewdod!

Cofiaf am Jones Chem yn arolygu cinio olaf y tymor, yn arbennig cyn y 'Dolig. Byddai Pwdin Dolig anferth i bob bwrdd. Os oedd rhywun yn gadael yr ysgol ac wedi cael y tair ceiniog yn y pwdin roedd yn rhaid dweud gair: 'Dwi ddim yn siŵr os ydwi'n gadael' oedd esgus y plant. Jones Chem yn ateb 'Start with - If I don't come back...' ac felly doedd dim esgus.

Catherine Evans (Cymraeg). Hi fel Robert Morris yn stwffio gramadeg Cymraeg i ni, ac fe glywaf ei llais yn dweud y diweddebau wrthym 'wn, it, ai, em, ech, ent, id' a diolchaf iddi hi am fy Nghymraeg gweddol dda, oddeutu 60 mlynedd yn ddiweddarach.

Gwyneth Evans. Dim ei bai hi oedd nad oeddwn yn dysgu fawr o Hanes Cymru, ond roedd yn ddiddorol yn dweud hanes Mesopotamia a'r gwledydd tramor eraill.

Soniodd Rhiannon Roberts am Siop Wil John. Dyn bychan o gorff a'i siop ddim fawr mwy. Disgwyl y bws am Ddeiniolen, yn llwglyd fel arfer, a mynd i Siop Wil John. Dwy ohonom yn prynu torth bach rhyngom. Wil John, ei stwmp sigarét yn ei geg ac yn snwffian, a ninnau yn talu 2'1/2d (un yn talu 1d a'r llall 1'1/2d a newid drosodd i brynu torth trannoeth). Doedd fawr o amser nad oedd y dorth wedi'i chladdu.

Diolch i Rhiannon Roberts am yr erthygl eithriadol o ddiddorol ac am fy atgoffa am flynyddoedd hapus.

Os oes rhywun yn fy nghofio ac yn dymuno anfon gair, gwnewch yn fuan. Edrychaf ymlaen am eich geiriau. Elizabeth Williams, Tŷ Capel Ebenezer, Deiniolen oeddwn i yn yr hen amser, ond rwan fy ngofion atoch i gyd.

ELIZABETH LEWIS
2 Stevens St, Ermington
N.S.W. 2115 Awstralia.

Cymdeithas y Gronyn Gwenith

yn cyflwyno

Y Dewraf o'n Hawduron

Portread llwyfan o

T. ROWLAND HUGHES, Y DYN A'I WAITH

gan Harri Parri

yn Theatr Seilo, Caernarfon

Mawrth 27-31, 2007

am 7.30 o'r gloch

Tocynnau:

Oedolion	£4.00
Pensiynwyr a Phlant:	£3.50
Partïon (dros 10 mewn nifer):	£3.50

Am docynnau, cysyllter â'r Trefnydd Perfformiadau

David Elwyn Williams ar (01286) 677016

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

YSGOL SUL CAPEL COCH. Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn i blant Ysgol Sul Capel Coch yw'r penwythnos yng Ngholeg y Bala, Canolfan Plant a leuenctid yr Eglwys Bresbyteriaid. Mae cryn edrych ymlaen yn Llanberis a Nant Peris bob blwyddyn at y cwrs hwn.

Am rai blynyddoedd buom yn rhannu penwythnos ym mis Tachwedd gyda chriw o Rosllanerchrugog, ond ers blwyddyn neu ddwy yr ydym yn rhannu gyda chriw Llansannan ym mis Ionawr. Felly, bawn Gwener, Ionawr 26, aeth 21 o blant, yn cynnwys 2 o Ysgol Sul capeli Deiniolen, gyda'u gweinidog, y Parchg John Pritchard, i'r Coleg unwaith eto. Roedd yno 16 o blant o Llansannan hefyd, a hynny'n golygu bod y Coleg yn rhwydd lawn.

Cawsom groeso cynnes fel arfer gan staff y Coleg. Roedd y cwrs yng ngofal tair ohonynt, sef Nia Williams, Meryl Walters a Rhian Barrett. Gydol y penwythnos cawsom hanes Joseff a'i frodyr, a thrwy stori a chân, pypedau a gemau, a phosau a gwaith crefft, cyflwynwyd yr hanes mewn ffordd fywiog ac effeithiol.

Roedd y plant yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn yr holl weithgareddau, a mwynhaodd pawb ei hun yn arw. Yn ogystal â'r sesiynau dysgu hwyliog, bu'r plant yn nofio yng Nghanolan Hamdden y dref brynhawn Sadwrn ac yn gwyllo ffilm ar sgrin fawr y Coleg gyda'r nos.


Hwn oedd y tro cyntaf i amryw o'r plant ddod gyda ni i'r Coleg.

Dyma'r tro cyntaf o bosibl i rai ohonynt fynd 'ar eu gwyliau' heb eu rhieni. Ond cafwyd dim trafferth efo'r un ohonynt, a neb yn hiraethu gormod am gartref. Ac er gwaetha'r diffyg cwsgr mae'r gweinidog eisoes wedi archebu lle ar gyfer y flwyddyn nesaf ac yn edrych ymlaen at y penwythnos arbennig hwn unwaith eto.

DYMUNA Ann Jones, Stryd Newton, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a gafodd wrth ddathlu ei phen-blwydd yn 60 oed.

DIOLCH. Dymuna Alice a John Jones, Beddgelert, ddiolch yn ddiffuant i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu Priodas Ruddem.

CÔR MEIBION. Bu'r Côr yn cynnal Noson Lawen yng Nghapel



Roedd Steven a Daniel ar goll o'r llun mawr; ac mae'r Parch John Pritchard ar fin cael clamp o gic y tu ôl i'w ben gan y Prifathro Lewis Edwards!

y Ffôr, ger Chwilog, ar nos Wener, 16 Chwefror. Cafwyd noson hwyliog iawn gyda'r gynulliedfa yn amlwg yn mwynhau eitemau gan y Côr, unawdwyr, deuawdwyr a sgets.



Plant Llanberis, Nant Peris a Deiniolen gyda phlant Llansannan yn Y Bala.

DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

MERCHED Y WAWR

Yn ein cyfarfod mis Chwefror, cyfeiriodd Buddug, ein Llywydd, at farwolaeth Glenys Williams a fu'n aelod fyddlon o'r gangen o'r cychwyn cyntaf. Anfonwyd ein cydymdeimlad at deulu Glenys.

Roedd amryw o'r aelodau yn cwyno ac yn methu dod i'r cyfarfod ond serch hynny, cafwyd nifer teilwng i wrando ar ein gwraig wadd, Maureen Rhys. Cawsom sgwrs hynod o ddifyr ganddi ar gymeriad yr awdures, Kate Roberts. Cawsom wybod am ochr i gymeriad Kate Roberts nad oeddem yn ymwybodol ohono - y doniol a'r deifiol. Roedd Maureen ar ei gorau yn sgwrsio a dyfynnu o waith yr awdures. Diolchwyd iddi gan Alice.

Bu trafod wedyn ar ein cinio i ddathlu Gŵyl Dewi. Pasiwyd ein bod yn ei gynnal nos Lun, 5 Mawrth yn Y Caban, Brynrefail. Bws i gychwyn o Ddinorwig am 7.00 yr hwyr.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL. Ddiwedd mis Tachwedd cawsom sgwrs hynod o ddiddorol gan Mr Bobby Haynes, Caernarfon. Roedd yn sôn am yr holl hen siopau a arferai fod yng Nghaernarfon. Diolchwyd iddo gan Mr John Llewelyn Williams.

Ym mis Ionawr y siaradwr gwadd oedd Dr Graham Thomas, Cwm-y-glo, a soniodd am ei ymweliadau â

Lesotho pan fu'n helpu'r bobl yn eu brwydr yn erbyn HIV ac Aids. Bu'n agoriad llygad inni i gyd. Diolchwyd yn gynnes iddo gan Mrs Anne Lloyd. EGLWYS CRIST LLANDINORWIG. Cymdeithas Cyfeillion Eglwys Crist. I'r Newborough Arms, Bontnewydd, yr aeth aelodau'r Gymdeithas am eu Cinio Nadolig. Diolchwyd i Mrs Buddug Hughes, Mrs Jean Jones a Mrs Rhianwen Jones am drefnu'r noson.

Y gwŷr gwadd mis Ionawr oedd Mr J. Elwyn Hughes o Fethel. Sgwrs a lluniau ar 'Bro Caradog Prichard' oedd gan Elwyn inni. Drwy ei sgwrs ac edrych ar luniau o Fethesda, cawsom drem yn ôl i fywyd y chwarelwr a masnach brysur Stryd Fawr Bethesda. Cawsom gan Elwyn brofi profiadau bywyd Caradog Prichard, oedd yn wybyddus i lawer ohonom, oherwydd ei gysylltiadau â phentref ac Eglwys Llandinorwig.

Diolchwyd i J. Elwyn Hughes gan Mrs Jennie Williams. Gan fod Mr Hywyn Williams yn methu bod yng nghyfarfod mis Chwefror, daeth Miss Jane Foulkes i'r adwy ar fyr rybudd a chawson ni mo'n siomi. Mae gan Jane doreth o wybodaeth, yn enwedig lluniau a chofrestr i ardal Deiniolen, a diddorol oedd mynd trwyddynt gan sylweddoli'r newidiadau sydd wedi cymryd lle yn yr ardal.

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL


(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan

CLED A SUSAN

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant Tynnu Pres (Cashback)

GWYNANT
PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol

27 Stryd y Bont, Caernarfon
(01286) 672727


a hefyd ein swyddfa newydd
8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 355055

Dewch atom am gyngor ynghylch
yswiriant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun



Y SAMARIAID
(01248) 674985

Cofeb Griffith Ellis

Mewn ymateb i'r erthygl 'Cofeb' y mis diwethaf, rhaid cofio mai carreg ar fedd Griffith Ellis oedd dan sylw, ac mai'r teulu oedd yn gyfrifol am dalu amdani. Gresyn na fuasai cerflyn iddo yn yr ardal gan iddo fod, yn ôl pob cofnod, yn fawr ei barch fel goruchwiliwr chwarel Dinorwig am 49 o flynyddoedd. Da o beth bod Cymro Cymraeg wedi ei benodi i'r swydd pan ddaeth estron i gymryd y tir oddi ar y Cymry tua'r flwyddyn 1788. Yn wir roedd gan ei daid, Gruffydd Ellis arall, chwarel fechan yn yr Allt Ddu cyn hyn. Pobl leol oedd yng ngofal chwarel Alltwn yn ardal Llwyncoed a llawer o rai eraill.

Yn y Brifysgol ym Mangor mae 'Cof-Lyfr' o waith Griffith Ellis, lle mae'n sôn am lechi o'r ardal a ddefnyddiwyd ganrifoedd cyn hynny; enwau'r rhai oedd yn gweithio yn y Chwarel Fawr yn ardal Glanybala yn 1772; hanes gwneud ffordd i'r Felinheli a'r dulliau o gludo'r llechi; codi Pont Penllyn yn 1826 a gwneud ffordd i Ben y Gwryd yn 1830. Ceir hanes hen gymeriadau'r fro, y capeli cynnar, tai ardal Fachwen a Llanrug, yn ogystal â manylion am y chwarel. Ar restr o ffermwyr Llanberis yn 1766, enwir John Closs, Tyddyn Alis a dalai £6.0.0 o dreth i'r eglwys.


Roedd John Closs yn daid i Griffith Ellis o ochr ei fam. Mae'n siŵr fod miloedd o ddisgynyddion i John Closs ym mro'r Eco, er nad ydynt, mwy na minnau, yn cario'r enw. Does ond ychydig iawn efo'r cyfenw, ar wahân i ddau fab Twm Closs, fu farw ychydig flynyddoedd yn ôl, ac sy'n byw yn Lloegr. Mae dipyn mwy yn ei gadw fel enw canol, wrth gws. Newydd da yw fod un o'r Clossiaid, Ann Cumberton, unwaith eto yn cadw Ty'n Llan lle bu John Closs yn dafarnwr.

I atgoffa'r holl ddisgynyddion, dyma fraslun. Ganwyd

John Closs yn 1725. Daeth o Swydd Efrog a Helygain, Sir y Fflint, yn asiant i'r 'Llanberis Mine Company', sef y gwaith copr. Roedd o a'i wraig, Jane Roberts o Lanefydd, a dwy ferch yn byw yn Nant Uchaf yn 1760. Ganwyd Elizabeth, mam Griffith Ellis, y flwyddyn honno. Arhosodd Thomas Pennant efo John Closs yn 1781 tra'n teithio'r ardal a sonir amdano yn *A Tour of Wales*. Ysgrifennodd Parch. W. Bingley amdano hefyd ac, yn 1794, yn yr hen Eco dywedir, 'Deallwn oddi wrth John Closs, Tyddyn Alis, tafarnwr Ty'n Llan, y bydd nifer o fonheddwyr o Loegr yn ymweld â'r fro eto eleni i chwilio am lysiau prin ar lethrau'r mynyddoedd.' Rhoddodd Dafydd Whiteside Thomas wybodaeth amdano yn mynd i Ynys Manaw i archwilio cloddfa blwm ar ran Cwmni Pantan a darganfyddodd Dafydd ddogfennau yn dweud ei fod yn asiant i gloddfeydd Gwydir, ger Llanrwst, hefyd. Bu llawer yn hel yr achau, yn eu plith Hefin Closs Parry, Brynrefail, a wnaeth waith trylwyr.

Hwyrach, ar ôl gweld dyn mor amryfal ei ddoniau oedd John Closs, y buasai'n dda o beth codi cofgolofn iddo wrth Dy'n Llan!!! Nid oes carreg fedd iddo yn y fynwent ond mae ei enw a hanes ei deulu yn dal yn fyw hyd yn oed ar draws yr Iwerydd. Beth amser yn ôl yn yr Eco rhoddodd Olwen Ebbrel (Rees gynt) ddisgrifiad o gofgolofn ŵyr iddo, Robert Closs, a ymfudodd i America o Dy'n Llan am fod ei wraig yn llymetian! Gwnaeth hynny fyd o lês, 'a daethant yn ddinasyddion parchus a defnyddiol'. Bu Olwen yn Cambria, Winsconsin, yn gweld cofgolofn farmor, 9 troedfedd o uchder a gostiodd 800 o ddoleri yn 1845. Mae'r enw CLOSS ar y pedair ochr lle claddwyd y teulu a phedwar o'u plant bach.

MARGARET WYN ROBERTS



CYNGERDD GWYL DDEWI Ysgol Glanaethwy

Llywydd: Mari Gwilym • Nos Sul, Mawrth 11 • am 7.30
Capel Salem Caernarfon

Mynediad yn £5 a £3 i blant a phensiynnwyr
Yr elw at daith Pasg Ysgol Glanaethwy i Hwngari

Dyddiadur Can Mlynedd

Dyma ychydig mwy o dyddiadur Mr Evan Parry-Jones, Tŷ'r Mawn, Llanberis. Rwyf wedi cynnwys y flwyddyn 1898-99, am mai yn Hydref 1898 y mae'r dyddiadur yn cychwyn o ddifri.

22 Hydref 1898: Marw merch i Matte Roberts, Rallt Goch.

24 Hydref: Marw Ben Phillips, Helfa.

26 Hydref: Marw David Hughes, Bryn Padarn, ac hefyd Mrs Thomas, Dolbadarn ar ddydd Gwener Ffair Gaeaf.

27 Ionawr 1899: Marw gwraig Dr Pritchard yn sydyn.

15 Chwefror: Marw Evan Nani, Nant Uchaf.

14 Mawrth: Marw David Thomas, Victoria Street.

25 Mawrth: Marw Evan Moses Williams, Ceunant Street.

29 Mawrth: Claddu William Ellis, Pyllau Dŵr.

11 Ebrill: Claddu Thomas Ellis ar ddydd Llun yn y Bala.

18 Ebrill: Torrodd Richard Thomas ei fraich yn Sinc Pant Ceubran.

1 Mehefin: Marw Dicken Roberts, Blaen y Ddol.

1 Gorffennaf: Boddi 13 o bobol a 3 o blant yn Pwllheli.

22 Gorffennaf: Cafodd Robert Jones, Llanrug, ei ladd yn Sinc Bach.

18 Hydref: Priodi William Owen, Fotty.

20 Hydref: Priodi Robert William Hughes, Pentre Castell.

15 Rhagfyr: Priodi Robert Roberts, Pentre Castell.

Ac yn awr fe ddown i gan mlynedd i'r mis hwn:

7 Mawrth: Marw Dora Roberts, Snowdon Street.

11 Mawrth: Marw Lord Penrhyn.

14 Mawrth: Marw gwraig Edward Jones, York Terrace.

28 Mawrth: Priodi Harry Gwynedd Hughes, Newton Street yn Capel Moriah.

31 Mawrth: Marw C. E. Py, Cambrian Lodge.

Ac yn awr symudwn ymlaen i gynnwys digwyddiadau 75 mlynedd yn ôl. Sef y flwyddyn 1932:

6 Ionawr, 1932: Claddu gwraig Griffith Davies.

7 Ionawr: Claddu Iorwerth Thomas, Newton Street.

16 Chwefror: Claddu Edward Evans, Glyn.

17 Chwefror: Claddu John Price.

20 Chwefror: Claddu Hugh Lloyd Roberts.

25 Mawrth: Marw William E. Evans, Llainwen Uchaf. Claddu Dr Pritchard.

R. ELWYN GRIFFITH

Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynlluniau Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

AGE
Concern

Age Concern Gwynedd a Môn
Tŷ Seiont, Ffordd Santes Helen,
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: ECO'R WYDDFA

Mae Age Concern Enterprises Ltd wedi ei gwestiynu'n ddwyreolaidd gan yr Awdurdod Gwasanaethu Ariannol (IFSA) ar gyfer yswiriant cyffredinol. Mae'n gwestiynu o tua 300 o Age Concern lleol ledled y DU

Byddwch yn llawer gwell allan hefo Ni!

AUDI	SEAT	PORSCHE	VOLKSWAGEN
SKODA	BMW	PEUGEOT	FIAT
			
Y Dewis arall Dibynadwy i Wasanaeth Y Prif Ddeliwr. Beth bynnag rydych yn ei yrru, o Audi i VW...			
Ceir Benthg AM DDIM			
Cibyn Ind. Est., Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD (01286) 673559 www.a-v-w.co.uk			
Car Service			
VOLVO	MERCEDES	SAAB	

CHWILOTA

Lluniau ... ac Ymatebion



Roedd blaenddalen y rhifyn diwethaf o'r *Eco* yn awgrymu fod y genhedlaeth bresennol o blant y fro yn debygol o fod yr un olaf i weld eira ar gopa'r Wyddfa. Mae datganiad moel fel yna yn rhoi cryn ysgytwad i rywun, yn enwedig pan fo cymaint ohonom yn cofio gaeafau caled o eira a rhew. Mae'n bosibl mai rhywbeth yn perthyn i lèn gwerin y fro fydd straeon am eira o fewn canrif. Mae'n bwysig, felly, fod y cof am y gaeafau caled rheini a fu yn y gorffennol agos yn cael ei gadw a'i gofnodi.

Dyma un enghraifft a anfonwyd gan Liz Roberts, Eithinog, Bangor (gynt o Stryd Charlotte, Llanberis). Mae'r llun yn dangos Llyn Padarn wedi rhewi'n galed yn ystod gaeaf mawr 1947. Tynnwyd y llun ar ochr Llanberis o'r llyn, a gellir gweld y domen lechi o flaen yr hen ysbyty yn y cefndir – a'r llyn o'r golwg dan garped gwyn.

Meddai Liz: *'Croesais y llyn hyd at Ysbyty'r Chwarel, a chaef y chwip din orau erioed am wneud hynny! Mae'n gas gen i y llun fyth ers hynny!'* Diddorol fod cosb gorfforol yn gymorth i gofio digwyddiad. Dyna'n union a ddigwyddai flynyddoedd ynghynt pan gynhelid yr arferiad o gerdded terfynau plwyfi. Byddai'r bechgyn yn cael eu chwipio a'u taro wrth ochr pob carnedd gerrig neu ran arbennig o'r terfyn er mwyn i'r lle (a'r achlysur) aros yn fyw yn eu cof. Mae'n amlwg fod y chwip din wedi serio'r achlysur yng ngof Liz byth ers hynny. Ac y mae hefyd yn gallu cofio enwau pawb sydd yn y llun. Felly, y tro nesaf y bydd unrhyw un o'r darllenwyr yn tynnu llun unrhyw ddigwyddiad go arbennig, gofawch roi chwip din iawn i'r rhai sydd yn y llun er mwyn iddynt gofio am yr achlysur!

Bechgyn Waunfawr

Ddaeth neb i gysylltiad ynglŷn â'r

bechgyn a enwyd yn y gerdd, ond cafwyd gwybodaeth am yr awdur, sef Menna Williams, a hynny gan berthynas iddi, sef Mrs Mair Williams, Llanrug.

Un o deulu Penterfryn, Llanrug, oedd Menna, merch i Griffith Caradog a Laura Williams. Roedd iddynt dri o blant, sef Menna, Idwal a Joseph. Bu farw'r fam yn ystod y fflw mawr ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, a hynny ar enedigaeth Joseph. Cafodd yntau, yn ôl y drefn yr amser hynny, ei fedyddio ar arch ei fam. Bu'n rhaid i'r plant gael eu magu gydag aelodau eraill o'r teulu yn yr ardal. Aeth Menna i fyw at fodryb iddi – Anti Maggie – yn Stryd yr Wyddfa, Llanberis.

Yn ferch ifanc, aeth i weini i'r Waunfawr. Does dim sicrwydd i ble yn hollol, ond efallai mai at feddyg yr ardal. Roedd wrth ei bodd yn ysgrifennu penillion ac yn barddoni. Enillodd nifer o gadeiriau mewn cystadleuthau llenyddol ac eisteddfodau lleol.

Priododd William Ellis o ardal Morfa Bychan, a buont yn ffermio Tyddyn Llwyn, gan fagu pedwar o blant. Mae Meirion Ellis, ei mab, bellach yn ohebydd ardal Blaenau Ffestiniog i'r *Cambrian News*.

Ond pwy yw'r bechgyn yn y gerdd?

Cartref Tan y garreg,

Betws Garmon

Gyda diolch i Mrs Carrie P. Owen,

Llanrug, am gysylltu ynglŷn â'r cartref, a'r wybodaeth fod rhai o'r bechgyn wedi mynychu Ysgol Salem, Betws Garmon, gan fod ei mam yn cofio rhai ohonynt. Mae hefyd yn cadarnhau mai Is-Almaenwyr oedd preswylwyr y cartref yn y dyddiau cynnar.

Soniod hefyd am y rhes tai a elwir Gwyrfa Terrace – rhwng y Waunfawr a Betws Garmon. Yr enw ar lafar ar y tai rheini oedd Tai Cornish. Tybed a yw'r enw'n parhau i gael ei ddefnyddio gan bobl yr ardal? Credai Mrs Owen fod yr enw yn deillio o gyfnod pan oedd mwynwyr o Gernyw yn byw yno ac yn gweithio yn rhai o'r mwynfeydd a'r chwareli lleol.

Cofeb Griffith Ellis

Mewn erthygl dwyn y teitl 'Cofeb' yn rhifyn mis diwethaf o'r *Eco* ceir sôn am y gofeb ar fedd Griffith Ellis, Hafoty, Dinorwig. Efallai mai fi sy'n camddehongli'r paragraff sy'n sôn amdano fel dyn uchel ei statws a phwysig iawn, a bod cofeb arall wedi ei gosod ar fur yr eglwys *'i wneud yn siŵr nad oedd trigolion y Nant yn ei anghofio.'* Y gwir amdani yw fod Griffith Ellis yn haeddu ei gofio fel gweinyddwr a rheolwr a roes drefn ar reolaeth y chwarel, ac a fu'n oruchwyliwr arni am 46 o flynyddoedd. Cadwodd hefyd lyfr nodiadau – a elwir yn 'Gof-Lyfr Griffith Ellis' – sy'n croniclo ffeithiau hanesyddol pwysig am ddatblygiad diwydiannol a chymdeithasol y fro hon. Mae'r llyfr hwnnw bellach wedi ei gadw'n ddiogel yn Archifdy'r Brifysgol ym Mangor.

Rhaid cofio hefyd, mai Eglwys y Nant oedd man addoli a chyrchfan bedyddio, priodi a chladdu trigolion ardal Dinorwig a'r Fachwen am ganrifoedd, er mai ym mhlwyf Llanddeiniolen y lleolir hwy. Cyn datblygu'r chwarel ar lethrau'r Elidir, roedd yn llawer haws i drigolion yr ardaloedd hynny deithio i'r Nant nac i eglwys plwyf Llanddeiniolen, a oedd rai milltiroedd i ffwrdd ar draws

gweundir a chorsydd anhygyrch.

Lladd yng Nghoed y Faenol

Daeth ymholiad diddorol iawn gan un o'r darllenwyr yn holi am ddigwyddiad honedig yng nghoed Parc y Faenol. Fe'i cofnodwyd gan hen wraig o'r enw Mary Jones, Fachell, Llanddeiniolen. Roedd hi'n saith deg mlwydd oed yn 1887, ac yn adrodd fel y byddai ei nain yn sôn am y digwyddiad. Dyna fynd â ni'n ôl felly i ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, neu gynt. Yn ôl yr ychydig wybodaeth a gofiai Mary Jones, dywedir fod cefnder i'w thaid wedi ei ladd yng nghoed Parc y Faenol, mai Lewis oedd ei enw, a bod ganddo fab o'r enw Charles. Roedd rhigwm teuluol yn cael ei adrodd ynglŷn â'r digwyddiad:

Gwae fi erioed

Roi bwyell mewn troed

I dorri coed y Faenol.

Yna, daw'r rhan anhygoel o'r stori. Pan adawyd Charles yn blentyn amddifad oherwydd llofruddiaeth ei dad, fe'i magwyd gan Esgob Bangor, a bod hwnnw wedi gadael ei holl eiddo iddo yn ei ewyllys. Ond bu Charles farw cyn dyfod i oed, ac felly, aeth yr etifeddiaeth i'r Goron.

Dyna'r esgryn moel. Oes rhywun o'r darllenwyr wedi clywed stori debyg o'r blaen? Dywedir fod Mary Jones yn hannu o hen deulu Penygroes, Llanddeiniolen, a bod Dafydd Ddu Eryri yn gefnder i'w nain ac yn ymwelydd cyson â'r cartref pan gadwai ysgol yn y plwyf. Dywedir hefyd fod cefnder arall i'w thaid, sef Rhys Roland, yn delynor i'r brenin.

Mae stori ddiddorol iawn yma, ond bydd angen cryn dipyn o waith ymchwil i ddatgelu'r holl ffeithiau.

Arferion Claddu

Soniwyd eisoes yn y golofn hon am yr arfer o fedyddio plentyn newydd-anedig ar arch ei fam: mae'n amlwg ei fod yn eithaf cyffredin ganrif a mwy yn ôl. Ond beth ddigwyddai os byddai'r fam a'r plentyn yn marw ar yr enedigaeth?

Deuthum ar draws cofnod yng nghofrestrau claddu Llanrug sy'n awgrymu mai cynnal un cynhebrwng fyddai'r drefn – a chladdu'r fam a'r plentyn gyda'i gilydd. Ond yn y cofnod y deuthum i ar ei draws, gosodid y ddau gorff yn yr un arch.

Dyna ddigwyddodd i Mary Jones, Coed y Ddôl, Llanberis, a fu farw ym mis Gorffennaf 1877 yn 34 mlwydd oed. Fe'i claddwyd yn Llanrug ar yr unfed ar bymtheg o'r mis hwnnw, a'i phlentyn 5 wythnos oed gyda hi, sef Mary Elizabeth Jones – *'both in the same coffin'* – yn ôl llawysgrif y rheithor ar y gofrestr.

Tybed pa mor gyffredin oedd yr arferiad hwnnw?

Anfonwch unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r lluniau neu unrhyw ymholiad ynglŷn â gwahanol agweddau o hanes y fro i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515).



Llyn Padarn wedi rhewi: gaeaf 1947

(O'r chwith i'r dde): Mr Wil Griffiths, Stryd Goodman; Elizabeth Hughes (sef Liz Roberts bellach), Stryd Charlotte; Margaret Parry, Stryd y Pictiws; Helen Roberts, Becws Penybryn; Elaine Fosse Jones; Mrs Fosse (nain Elaine); Mrs Arianwen Jones, Gwynfa; Mrs Wil Griffiths; Mr Charlie Owen (y cerddor) ac Elwyn Griffiths, Stryd Goodman. Y ddau fachgen yn y cefn yw Gwynfryn Griffiths (mab Mr a Mrs Wil Griffiths) a Llew Humphreys, Stryd Goodman.

Cyngor Cymuned Llanrug

Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf yn Ysgol Gymuned Cwm y Glo ar Ionawr 16eg 2007. Croesawodd y Cadeirydd, Dafydd W. Thomas, bawb i'r cyfarfod. Cadarnhawyd cofnodion Rhagfyr 19eg yn gywir.

Pasiwyd fod y tendr torri gwair y ddau gae chwarae a'r fynwent yn cael eu cynnig i Mr. Pat McGuinness am y flwyddyn 2007/2008, gan fod y Cyngor yn gwbl hapus gyda safon ei waith a bod cymaint o bobl wedi canmol ei waith eleni.

Penderfynwyd gofyn am bris penodol i Fenter Fachwen am dorri'r gwair yn yr ardd gymunedol yng Nghwm y Glo yn hytrach na chael pris am y gwaith fesul awr. Datganodd y Cyngor Alan Pritchard fuddiant personol yn yr eitem hon.

Bydd Llwybr rhif 15 yng Nghwm y Glo yn cael ei wrio i gyfateb â'r map. Golyga hyn bydd yn rhaid symud ychydig ar y llwybr fel y bydd yn dod allan i'r ffordd yn ymyl safle yr hen gwt hers.

Dyma benderfyniadau pwyllgor Cynllunio Arfon: caniatáu estyniad ar Gwynfryn Ceunant a hefyd creu mynedfa newydd i Fferm Pandy, Llanrug. Doedd dim ceisiadau newydd gerbron y tro hwn.

Pasiwyd i gadw'r praecept ar gyfer 2007/2008 yr un fath â 2006/2007. Bydd y clerc yn cysylltu â Chyngor Gwynedd.

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaernarfon ddiwedd Tachwedd, gofynnwyd i bob Cyngor Cymuned cyfagos drafod cael Ffordd Osgoi i'r Bontnewydd. Gwnaed hyn a phenderfynwyd cefnogi'r ymgyrch i gael y ffordd osgoi yno. Y clerc i gysylltu â chlerc Cyngor Cymuned Bontnewydd.

Derbyniwyd gohebiaeth o Gyngor Gwynedd fel a ganlyn:

- O adran y prif weithredwr - y bydd gwybodaeth yn dod i law yn y dyfodol agos ynglŷn â safle

Glyn Rhonwy yn Llanberis.

- O adran gofal stryd a thrafnidiaeth - nid oes digon o dystiolaeth fod ceir yn goryrru ar stâd Glanffynnon.

- O adran tîm gorfodaeth, mwynau a gwastraff - yn egluro fod gan berchennog Cae Rhydu hyd Ebrill 26ain i ddymchwel yr adeiladau a godwyd heb wneud cais cynllunio. Rhybudd gorfodaeth yw hwn am iddo golli'r apêl.

- Derbyniwyd Dogfen Braenaru Daearyddol Arfon ynghyd â ffurflen cofrestru aelodaeth Partneriaeth Economaidd Gwynedd.

- Daeth llythyr i law oddi wrth brif weithredwr Mudiad Cymuned yn gofyn am gefnogaeth i 'Cartrefi.com' Ymgyrch yw hon sydd o blaid cael tai newydd yn dai fforddiadwy. Gellir cael mwy o fanylion ar y wê.

Mae nifer o faterion angen cael sylw gan Gyngor Gwynedd.

i) Y dŵr sy'n llifo i lawr y ffordd heibio'r eglwys yng Nghwm y Glo.

ii) Y llanast sy'n cael ei adael ar y ffordd pan mae gwastraff plastig (ar gyfer ei ailgylchu) yn cael ei chwythu. Nid oes neb yn ei glirio ar hyn o bryd.

iii) Y coed yng Nghorlan y Rhos Llanrug sy'n cuddio'r golau stryd yn dal heb eu torri.

iv) Mae pryder o hyd am sylfaen y tŷ sy'n cael ei adeiladu wrth gae chwarae Nant y Glyn yn Llanrug. Nid yw'n cael ei ddiogelu ac mae oddeutu metr o ddŵr glaw yn cronni ynddo. Mae perygl dychrynlyd i blant ddisgyn i mewn i'r sylfaen.

v) Trigolion Cwm y Glo eisiau gwybod pam fod gwasanaeth bysiau KMP ar yr hanner awr wedi cael ei stopio.

Clerc i wneud ymholiadau cyn y cyfarfod nesaf a gynhelir ar nos Fawrth, Chwefror 20fed am 7 o'r gloch yn y Sefydliad Coffa yn Llanrug.

APÊL YSGOL PENDALAR

Cafwyd aduniad ddydd Gwener, 16 Chwefror. Daeth Haf a'i ffrindiau - Nicola a Llion o Fro'r Eco a Dyfed o Lanfairpwll at ei gilydd i gyflwyno siec o £7,150 i Mrs Eurwen Davies, y Dirprwy Bennaeth, ar gyfer prynu adnoddau arbennig i'r ysgol newydd. Yno hefyd roedd Mrs Nesta Jones, hithau ar staff yr hen ysgol 'nôl yn yr wythdegau. Bu hen sgwrsio a hel atgofion dros ginio yn ddiweddarach!

Mae Haf yn dymuno diolch

am bob cefnogaeth a chyfraniad tuag at yr Apêl yn dilyn y nofio nodedig. Diolch i unigolion o Fro'r Eco yn ogystal â'r canlynol:

Ysgol Gymuned Cwm y Glo; Ysgol Gymuned Penisarwaun; Ysgol Gwaun Gynfi ac Ysgol Waunfawr; Côr Clychau'r Grug; Merched y Wawr Llanrug ac i bawb oedd mewn gofal o ffurflen noddi. Diolch arbennig i Hilda Parry, Deiniolen.

Diolch o galon i chwi i gyd.



Haf Thomas, Nicola Parry, Llion Roberts a Dyfed Hughes yn cyflwyno siec o £7,150 i Mrs Eurwen Davies, Dirprwy Bennaeth Ysgol Pendalar. Yn y llun hefyd mae Mrs Nesta Jones.

Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal yn cynnwys
PENISARWAUN, DEINIOLLEN, LLANRUG A LLANBERIS
Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.
24 awr y dydd

Ffoniwch: **Dylan (Llys) ar 871833**

Symudol: **07778 127394**

HEFYD



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd Rolls Royce
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac
achlysuron arbennig eraill

CYNGOR BUGEILIAID UCHELDIR CYMRU

Cynhelir cyfarfod arbennig o'r mudiad yng Ngwesty'r Dolbadarn, Llanberis, am 7.30 o'r gloch dydd GWENER 9fed o FAWRTH 2007.

A fuasech gystal â rhoi galwad i'r cadeirydd, Mr Dafydd Morris, i gadarnhau eich presenoldeb, os gwelwch yn dda? Bydd lluniaeth ar gael i'r aelodau. Rhif ffôn (01286) 870108.

CAPEL TAN Y COED LLANRUG

Darlith Gyhoeddus

**'John Jones, Talsarn
- y Pregethwr Enwog'**

Nos Wener Mawrth 23
am 7.30 o'r gloch

Darlithydd:

**Dr John Aaron,
Abertawe**

**CROESO CYNNES
I BAWB**

Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

Rhywbeth go Ddiarth yn Llanberis

Ym mis Mawrth y flwyddyn 2006 canodd y teliffon. Eifion Sŵn y Gwynt, Llanberis, oedd ar y pen arall i'r lein, a chefais ar ddeall ganddo ei fod wedi taro ar rywbeth go ddiarth mewn brigau coeden. Ia, grifft llyffant! Digwyddiad tra diddorol yn wir, a rhaid oedd mynd ar drywydd y mater. Felly cysylltwyd hefo Peter Howlett, Curadur Creaduriaid sydd hefo asgwrn cefn, yr Adran Fwydeg, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd, gan ofyn y cwestiynau canlynol iddo:

- Pa mor gyffredin, ran digwyddiad, ydyw cansod grifft llyffant ym mrigau coeden?
- Pam fod hyn wedi digwydd?
- A oedd 'na achosion eraill ar gael?

Dyma ei ateb cynhwysfawr: (Cyfieithiad)

4ydd Ebrill 2006

Grifft llyffant mewn coeden yn Llanberis

Ymddiheuriadau am oedi cyn ateb eich llythyr. Newydd ddychweylid o'm gwyliau yr ydwyf. Nid wyf wedi clywed am hyn erioed o'r blaen... Yn sicr mae llyffantod melyn a duon yn ymgolli arni'n lân adeg paru, a bydd y gwrywod ynghlwm wrth y fenyw am amser hir, a hynny yn y gobaith o ffrwythloni'r wyau, a gall un fenyw gael ei hamgylchynu gan amryw o wrywod - fel bod unrhyw beth yn bosibl... efallai iddi ddringo i'r goeden er mwyn cael gwared o'r gwrywod a oedd wedi clymu wrthi. Y mae digwyddiadau o'r fath yn bendifaddau'n ein hatgoffa pa mor annarogan ydyw byd Natur.

Yr eiddoch yn ddiwyll, Peter Howlett

Mi rydach yn cofio imi ddweud wrthyfch flwyddyn neu ddwy yn ôl bellach am benbyliaid nad oedd fawr o siâp tyfu arnynt, a hynny yn Nhrefor. Ar y 28ain o fis Mawrth 2006, cafwyd llythyr oddi wrth Beryl, Argoed, Trefor, sy'n fy hysbysu fel a ganlyn:

Mae'n ddrwg gen i gronclo fod penbyliaid hirhoedlog Trefor wedi darfod amdanynt. Bu inni gau'r prwl rhyw flwyddyn yn ôl, a thyfu glaswellt yno. Roeddwn ers blynnyddoedd ofn i blentyn syrthio iddo a boddi. Nid wyf wedi gweld llyffant o gwmpas yr ardd yma ychwaith, ac mae fy mab a minnau, ar ein teithiau yn Llŷn ac Eifionydd, wedi craffu ymhob ffos eleni ond heb weld grifft o gwbl. Angen newid ein sbectolau hwyrach...

Hoffwn ddiolch yn wylaidd i Eifion Llanber, Peter Caerdydd, a Beryl Trefor am fy ysgogi i sgwennu'r gwahanol hanesion ynghylch llyffantod yn y golofn hon. Ymddiheuraf am oedi blwyddyn gron cyn dwyn y mater i sylw, ond dyma wneud iawn am hynny!

Fy niolch yn arbennig i Eifion; hebdo ni fyddem, am y tro cynta erioed am wn i ym myd Natur, wedi medru cofnodi hanes tu hwnt o anghyffredin. Ia, Eifion, craff ei lygaid; un tra gofalus rhag dweud wrth bawb union safle y goeden grifft llyffant; brodor o Lanber, a oedd mor barod ei gymwynas. Diolch iti, 'rhen Gymro!

Y mis nesaf: Cymdeithasau Byd Natur, a'u gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cystadleuaeth Gŵyl Ddewi

1. Llythyren gyntaf teitl llyfr gan Bethan Wyn Jones a gyhoeddwyd gan Gwasg Carreg Gwalch yn y flwyddyn 2006.
2. Llythyren gyntaf ... Ein Gwlad, sef llyfr gan John Ashton o Faldwyn, a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1906.
3. Llythyren gyntaf enw aderyn a ddisgrifir gan Ddafydd ap Gwilym fel 'cwcwll llwyd' ac 'Yn myned mewn lludded llwyr/ A chywydd i entych nen.'
4. Pa lythrennau sydd ar goll: Tri pheth a gynny(-) ar law/ Gwly(-) ac ysgall ac ysgaw?
5. Beth ydyw llythyren gyntaf teitl cyfrol a gyhoeddwyd gan y diweddar Ted Breeze Jones sy'n cynnwys ysgrifau o eiddo'r Naturiaethwr T. G. Walker?
6. Geni y rhai bychain a wna'r wiber, tra mae'r neidr ddu, sef y neidr fraith yn dodw'r rhain! Y llythyren gyntaf cofiwch!
7. Enw arall arno ydyw'r Geinach neu'r Pry' Mawr. Angen y llythyren gyntaf os gwelwch yn dda!
8. Beth a darawyd arno canllath o gopa'r mynydd gan Fardd yr Haf, a synnu at y rhyfeddod prin? Chwilir am y llythyren gyntaf o'n henw ni, gan amlaf, yn rhandiroedd Eco'r Wyddfa, ar y creadur hwn
9. Yr annog neu'r cochgangen, - dyma'r enwau eraill a geir amdano yn ôl y pysgotwr a'r cyn-chwarelwr, Emrys Evans, Manod, Blaenau Ffestiniog, yn ei lyfr Pysgod. Cofiwch mai'r llythyren gyntaf aiff â hi!

Dylech fod hefo naw llythyren erbyn hyn, sy'n sillafu cnw creadur. Paratowyd tair gwobr i gyd, a'r cyfan o'r gwobrau yn gysylltiedig hefo byd Natur. Y cyfan sydd angen i chwi ei gyflawni ydyw anfon eich ateb, sef enw'r creadur, a'ch enw a chyfeiriad yn llawn, erbyn Mawrth 14eg, fan bellaf, i'r cyfeiriad isod:

Cystadleuaeth Gŵyl Ddewi 2007,
Briwsion Byd Natur,
Y Nyth Neuadd Glasgoed,
Llanrug Gwynedd LL55 3BB.

Bob hwyl!

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

DYMUNA Ellen Burke, Arosfa, diolch i deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 80 oed. Hefyd diolch am y cardiau tra yn yr ysbty.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer mis Chwefror oedd: £40: (52) Michael Jones, 10 Bryn y Gof; £25: (40) Arwel Griffiths, 4 Tai Glangwna; £15: (107) Keith Jones, Bodawel; £5: (109) Alan Burford, 2 Erw Wen.

CYNGOR CYMUNED.

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Waunfawr yng Nghanolfan y Capel, Caeathro ar nos Lun, 19 Chwefror. Roedd y Cyng Clive James, y Cadeirydd, a'r Cyng Vera Roberts yn bresennol.

Penderfynodd y Cyngor ailymuno ag 'Unllais Cymru'. Ni fu unrhyw ymateb gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â darparu pafin yr holl ffordd i'r siop nac i'r gor-yrur i'r gorllewin o'r ynys. Fodd bynnag, deallwyd fod y Cynulliad Cenedlaethol yn fodlon cynnwys cynghorau cymuned yn eu trafodaethau ynglŷn â llwybr ffordd osgoi arfaethedig Caernarfon.

Gan groesawu'r gwelliannau i'r arosfannau bws, mae'r llethr sydyn yn beryglus i gerddwyr prin eu

golwg. Roedd y Cyngor yn erbyn ail-leoli'r tŷ newydd arfaethedig ar dir Cefn Rhos yn agosach i'r tŷ gyferbyn. Fodd bynnag, roedd y Cyngor o blaid estyniad ar gyfer ystafell dwyfa ym Mhenrhos, yn amodol ar gytundeb i godi mwy o dwmpathau ar y lôn a chyfyngu cyflymder traffig i 20mya rhwng Tai Glangwna a Llain Meddygon ac i lawr i Ben y Bryn.

GWASANAETHAU'R CAPEL.

Disgwylir y gwasanaethau canlynol yn ystod mis Mawrth:

4: 11.00 Ysgol Sul
11: 11.00 Ysgol Sul
2.00 Parch Harri Parri (Bedydd)
18: 11.00 Ysgol Sul
25: 11.00 Ysgol Sul
2.00: Mr Dafydd Iwan.

PEN-BLWYDD O FRI.

Llongyfarchiadau i Mr Myfyr Wyn Jones, Plas Gangwna ar ddathlu ei ben-blwydd yn 70 oed yn ddiweddar.

CYSTADLEUWYR. Ar 27 Ionawr bu i grŵp roc o hogia pentref Caeathro, o'r enw 'Input' gymryd rhan mewn cystadleuaeth 'Brwydr y Bandiau' yn y Pafiliwn, Llangollen. Allan o 11 o fandiau eraill, gorffennodd yr hogiau yn bumed. Anlwcus! Edrychwn ymlaen i'w clywed yn perfformio yng Nghaeathro.

CLWB MERCHED. Nos Iau, 25 Ionawr, daeth Mr Norman Hughes sy'n ddarpar Swyddog Cefnogol Cymunedol i Heddlu Gogledd Cymru atom i roi sgwrs i ni ar 'hunanamddiffyn'. Tynnwyd ein sylw at sawl peth y gallwn ni i gyd ei wneud fel unigolion o ddydd i ddydd i sicrhau ein bod yn fwy diogel yn ein cartrefi ac ar y stryd.

Croesawyd yr awdur a'r newyddiadurwr, Llion Iwan, i'n plith nos Iau, 22 Chwefror. Cawsom noson ddifur iawn yn ei gwmni yn gwrando arno'n sôn am ei brofiadau tra'n ymweld â rhai o wledydd mwyaf diddorol y byd a'r cymeriadau lliwgar y cafodd y fraind o'u cyfarfod tra ar ei deithiau.

Bydd Cinio Gŵyl Ddewi'r Clwb yn cael ei gynnal ar nos Wener, 23 Mawrth, yn y Bistro, Llanberis. Enwau i law'r Ysgrifennydd cyn gynted â phosib os gwelwch yn dda.

I drin a thrwsio
pob math o

beiriannau gwnïo

MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul



Quality Hotel Llanberis

(Gwesty'r Fictoria gynt)

- rhan o CHOICE HOTELS

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (01286) 870253

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cyfarfu'r Cyngor ar 6ed o Chwefror.

Gweddi

Offrymwyd y weddi gan Richard Llwyd Jones.

Aelod newydd

Croesawodd y Cadeirydd yr aelod newydd dros ward Deiniolen, sef Geraint Hughes, Coed Mawr, Deiniolen, gan ddymuno'n dda iddo yn y swydd.

Cofnodion Ionawr

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion

Derbyniwyd diolch am y cyfraniadau ariannol oddi wrth: Clwb Bro, Bethel; Llais Ogwan; Clwb Pêl-droed Bethel; Clwb Orwig a Chlwb Snwcer, Deiniolen. Derbyniwyd ateb Mr Barry Davies, Swyddog Parciau Gwledig Gwynedd, a'i ymddiheuriad am beidio cysylltu â'r Cyngor cyn cychwyn rheoli Geifr Mynydd.

Coed Bolyn Mawr. Ateb Timothy J. Hughes, Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd, ei fod ar fin monitro'r saethu a'i fwriad o gysylltu â Mr Carter am ei gydweithrediad!! Yr union sefyllfa, o ran synnwyr cyffredin, y dylid ei hosgoi.

Polisau'r Cyngor

Cyflwynodd y Clerc restr o bolisau a phenderfynwyd eu trafod yn y cyfarfod nesaf i roi cyfle i'r cynghorwyr edrych drostynt.

Cofeb Huw Lloyd Edwards. Dywedodd y Clerc ei fod yn disgwyl gwybod pa ddyddiad fydd yn gyfleus i'r teulu - addawodd eu ffonio eto.

Gohebiaethau a Materion eraill

Cyflwynwyd cais 'Un Llais Cymru' am £473 o dal aelodaeth. Dywedodd Richard Ll. Jones nad yw'r ddwy system flaenorol wedi asio yn iawn hyd yn hyn. Ychwanegodd Phyllis Ellis yr arferai gwasanaeth CCTBC fod yn dda. Penderfynwyd gohirio'r tâl tan derbyn yr adroddiad a addawyd yn eu cynhadledd flynyddol. Addawodd y Clerc edrych yn ôl ar ffioedd y blynyddoedd diwethaf erbyn y cyfarfod nesaf.

Hysbyswyd y Cyngor o waith ffyrdd Gwynedd:

Llwybr troed newydd (parhad): Erw Buan, Bethel.

Lledu ffordd: Gors Bach i Gelli Gyffwrdd.

Draenio Dŵr: Lôn Capel, Dinorwig.

Adeiladu troedffyrdd, mannau croesi a chodi arwyddion 50mya: Brynrefail a Chwm y Glo

First Hydro: derbyniwyd eu rhagen waith ar gyfer cynyddu cronfa ddŵr Marchlyn Mawr.

Yr Heddlu: Derbyniwyd eu hadroddiad o'r cyfarfod gyda Chynghorau Tref a Chymuned yn dangos sut mae Arolygwr Heddluoedd ei Mawrhydi yn dosbarthu Swyddogaethau'r Heddlu. Dywedodd Len Jones nad oes modd cael yr Heddwys cymunedol, Pete Willdigg, ar y ffôn. Penderfynwyd gofyn i'r Prif Gwnstabl beth sy'n digwydd. Cyfeiriodd Phylip Jones at y poteli gwag a'r holl lanasi a wneir yn ystod nos, ychwanegodd Len

Jones bod ardal y gofeb rhyfel yn Neiniolen wedi ei lanhau erbyn Sul y Cofio ond bod golwg ofnadwy yno erbyn hyn.

Cynllunio

Cais rhif C07A/0026/18/AM. Dymchwel y garej a chodi dau dŷ: yr hen Efail a garej, Stryd Tabernacl, Deiniolen.

Buasai dau dŷ ar y safle yma yn amddifadu cefnau Tai Gweledfa a Stryd Tabernacl, sy'n wynebu'r safle, o olau dydd naturiol. Mae'r wal ffin rhwng Tai Gweledfa a'r safle yma yn rhan o'r adeilad presennol, mynegwyd pryder beth fuasai effaith dymchwel y garej arni. Ni fu tai ar y safle yma o'r blaen. Buasai datblygiad fel hyn yn amharu ar y mwynderau lleol ac yn gor-ddatblygu'r safle. Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais.

Ceisiadau eraill a dderbyniwyd:

Caban Cyf, Brynrefail: ymestyn y sied feiciau.

Dryll: adeiladu ramps, gwneud manau parcio a chadw cynhwysydd.

1 Penrhos, Bethel: Estyniad. Argrai, Seion: Estyniad gwydr.

Glan y Bala, Llanberis: Estyniad i'r tŷ a'r uned gwyliau.

Bronant, Bethel: newid defnydd safle amaethyddol i ddefnydd diwydiannol ac estyniad.

Ceisiadu a ganiatawyd gan Wynedd:

Adeiladu tŷ ac addasu'r fynedfa: Weirglodd Goch, Penisarwaun.

Un tŷ: Yr hen ysgol, Penisarwaun.

Symud gwastraff, storio nwyddau ayyb ar gyfer dyfnhau'r gronfa: Chwarel Marchlyn Mawr.

Newid adeilad allanol i dŷ: Fferm Tyddyn Badin, Pentir.

Adeiladu tŷ a sied ardd: Rhiw Goch, Clwt y Bont.

Llwybrau

Rhôs Wian: Dim ateb, hyd yn hyn, oddi wrth Wynedd ynglŷn â'r gwaith dreanio ar ran o'r ffordd.

Dywedodd Mrs Pat Larsen bod Mr Alun Ffred Jones AC wedi ymweld â'r safle a'i fod am ofyn i Wynedd wynebu'r ffordd heb ei mabwysiadu.

Gofynnodd Hefin Williams a ellid cael gwastraff chwarel gan First Hydro i atgyweirio llwybrau.

Atebodd y Clerc nad oedd ateb wedi cyrraedd i'r llythyr ar ôl cyfarfod Ionawr. Ychwanegodd Phyllis Ellis bod hynny wedi ei addo gan Swyddogion y Cwmni yn ystod eu cyflwyniad i'r Cyngor wrth baratoi cynllun dyfnhau cronfa Marchlyn Mawr.

Dywedodd Len Jones bod angen torri gwair ar fwy o llwybrau, addawodd wneud rhestr fel bod pob llwybr yn cael sylw mewn cylchdro o ddwy flynedd.

Gofynnodd Geraint Hughes a ellid cael cynlluniau/mapiau i bob aelod, addawodd y Clerc gysylltu â'r Adran yng Ngwynedd.

Llwybrau Bethel

Arferid torri gwair ar y llwybrau cyswllt oddi mewn i bentref Bethel ddwywaith y flwyddyn. Un torriad a wnaed y llynedd a bu llawer o gwyno. Penderfynwyd eu torri ddwywaith o hyn ymlaen, tua canol Mai a chanol Awst.

Llwybrau Siop Treflan i Tan y

Fynwent, Tan y Ffordd i Tre Gof a Cefn Capel Cysegr.

Ychwanegodd Len Jones bod llwybrau cyswllt ym mhob penterf, penderfynwyd ystyried hyn wrth dderbyn ei restr o llwybrau.

Cyfeiriodd Phyllis Ellis at ordyfiant ar y llwybr o Llwynderw i Stablau - angen clirio hen dyfiant y tu mewn i'r ddwy wal.

Llwybr newydd Bethel i Erw Buan - diolchodd Huw P. Hughes am gyfraniad ariannol y Cyngor.

Rhoddion i fudiadau

Dywedodd Elspeth Mitcheson mai un cyfraniad a wnaed i 'Ti a Fi' ac 'Ysgol Feithrin' Rhiwlas, er bod ceisiadau oddi wrth y ddau

fudiad. Eglurodd y Clerc mai un fantolen ariannol a gyflwynwyd yn dangos cyfrifon y ddau fudiad fel un cyfrif Banc.

Penderfynwyd ar rodd ychwanegol o £50 i 'Ti a Fi', Rhiwlas.

Amlygwyd pryder y gallai hyn greu cysail gan mai'r arferiad yw trafod rhoddion mewn un cyfarfod yn flynyddol.

Teithwyr Chwarel Fachell

Gofynnodd Phylip Jones beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â'u symyd, eglurodd Huw P. Hughes bod trefniant iddo gyfarfod â chyfrethiwr i drafod y sefyllfa.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf

6ed o Fawrth.

'Dymchwel'



Dyma i chi lun diddorol - yn enwedig i ni oedd yn mynd am dro'r ffordd hyn yn aml er stalwm pan oedd y byd yn ifanc.

Meirion, fy nghefnder (Meirion Thomas, Llainwen Ucha, ond sy'n byw ym Mhentre Berw, Ynys Môn, ers blynyddoedd bellach) anfonodd hwy i mi, ar ôl darllen y stori yn *Eco'r Wyddfa*'r Hydref. Un o hogia Llanbêr fuodd Meirion erioed, ac mae'n dal i dreulio oriau lawer yno o hyd fel un o'r criw achub bywyd ar yr Wyddfa.

Oes yna bobol yn mynd i weld yr haul yn codi ar ben y Wyddfa y dyddiau yma, dudwch? Er stalwm byddai criwiau yn dod ar y 'saith nos ola' ym mis Medi. Os nad ydi

fy nghof yn chwarae triciau efo fi mi fyddai bysus wedi eu trefnu i ddod â chriwiau - yn dringo yn llawn hwyl a sbort. Efallai fod gan bobl bethau mwy diddorol a llai egniol i'w gwneud y dyddiau yma. Tybed!!

Coeliwch chi fi - rhywun sydd bron, bron yn bedwar ugain oed - mae gynnoch chi gyfle i gael profiad amhrisiadwy. Dwi'n falch i mi gael y cyfle i weld yr olygfa fendigedig a fy mod wedi manteisio arno. Doeddwn i ddim yn sylweddoli ar y pryd, mae'n siŵr, mor ffodus oeddwn i y bore hwnnw. Ro'n i'n lwcus!

MAIR ROBERTS
Dinas, Llanwnda



Achub y Plant

Save the Children

Yma i HELPU - yn eich cymuned chi

Sut hoffech chi ennill gwobr ariannol o hyd at £3,000 i wario yn eich cymuned chi? Dyna sydd ar gael o dan bartneriaeth unigryw rhwng yr elusen blant, Achub y Plant, a Nwy Prydain. Bwriad y gwobrau 'yma i HELPU' yw ysbrydoli pobl ifanc i wella'u cymunedau - a mwynhau eu hunain ar yr un pryd.

Mae'r gwobrau wedi'u cynnal ers dwy flynedd ac eisoes mae degau o brosiectau yng Nghymru wedi elwa: gan gynnwys cylchgrawn i famau ifanc yn ardal

Caerffili, cynllun chwarae yng Ngheredigion, a chlwb cyfryngau yn Ysgol Gyfun y Cymer yn y Rhondda.

Gall grwpiau o blant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gweithio gyda nhw geisio am wobrau o £1,000 neu o £3,000. Bwriad y gwobrau yw helpu plant a phobl ifanc sydd wedi'u heithrio neu'u hynysu, neu'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.

Croesawir yn arbennig geisiadau gan grwpiau a all wynebu anffafiaeth gymdeithasol, er enghraifft oherwydd anabledd, ethnigrwydd neu ryw y person.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 23ain o Fawrth 2007. Gellir gwneud cais yn Gymraeg neu yn Saesneg ar y wefan:

www.helpyourselves.org.uk

SNOWDONIA PARC WAUNFAWR

- Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
- Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
- Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: 650218

CEFNOGWCH FUSNESAU LEOL

www.ceircymru.com
Bethel (01248) 670451

(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion)

Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros yr 17 mlynedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy'n amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol yn teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.

Dymuniadau gorau ar gyfer 2007 i ddarllenwyr Eco'r Wyddfa ac ystyriwch hon fel adduned blwyddyn newydd: 'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'

Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: 870088

SWIGOD A SEBON

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS



Cefnogwch ein Hysbysebwyd

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs:
(01286) 650291

Dewis eang o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.

5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?

Ar Agor
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn

Ar Gau
Sul a Mercher

**GLANHAU CARPEDI
GYDA STIMVAK**

Silver STAR GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575


Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfinedig drwy Warant 3420271

Gosodwr Teils

Arbenigwr mewn walïau a llorïau

Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser

Ffoniwch Lloyd ar
01286 830 805



DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Llorïau Pren

Y BWTHYN TÉ pen y ceunant isaf

LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN A ADEILADWYD AR
WAELODION LLWYBR YR WYDDFA
(O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 18ed. GANRIF
CEWCH GROESO ARBENNIG
YMA, YN OGYSTAL A
GOLYGFYDD GWYCH DROS
LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am - 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYD

DIODYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydïau o gwbl)

MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN • YN ADDAS I'R ANABL

Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286) 872606

www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk



Ar Ben Arall y Lein



Gwesty Castell Ballynahinch.

Ar ôl rhyw awr cwta o deithio o'r Delphi dyma gyrraedd Gwesty Castell Ballynahinch, Recess, Sir Galway. Mae rhyw ddisgwyliad arbennig wrth yrru i fyny at y giatiau mawr sy'n arwain o'r ffordd ac ar hyd y dreif sy'n arwain i'r gwesty. Y peth cyntaf, wrth gwrs, ydi edrych dros y bont ar Afon Ballynahinch ond, yn anffodus, pob tro y gwnaf y siwrnai bleserus mae'r tymor 'sgota drosodd a does dim gobaith taflu pluen dros y dyfroedd sanctaidd.

Mi wnes ymholiad drwy e-bost ar ddechrau tymor 2006 i weld be oedd y posibilrwydd o gael rhyw ddiwrnod neu ddau. Yr ateb gefais oedd nad oedd yn bosib gosod dyddiau gan nad oedd yr aelodau wedi mynegi eu gofynion am y tymor eto - snobyddlyd, ynté! Ond er hyn ni allaf faddau rhag ceisio aros yno, o leiaf am rhyw ddwy neu dair noson.

Beth yw hanes y lle, meddech chi - Ballynahinch yn y wyddelig yw Baile na hinse, sef Tŷ ar yr Ynys. Mae'r castell, a oedd ar y safle yn wreiddiol, wedi'i glymu'n dyn yn hanes Connemara ers canrifoedd lawer mewn cofnodion o sgarmesi ffyrnig rhwng yr O'Flahertys ar O'Malleys, yn 1384.

Dros gyfnodau mae llawer cymeriad lliwgar wedi byw neu wedi ei gysylltu â'r adeilad gwreiddiol. Y mwyaf adnabyddus mae'n debyg, oedd Grace O'Malley a adnabyddid fel 'Brenhines Môr-ladron Connaught'. Mae ei bywyd fel Môr-leidr (os mai dyna mewn gwirionedd oedd gwir ystyr y gair - mae'n fwy tebygol mai arweinydd cryf a rhyfelgar oedd hi!) yn rhan o hanes yn yr ardal yma o Iwerddon, fel mae ei chyfarfyddiad â Brenhines Elisabeth y Cyntaf yn 1593, gyda'r trafodaethau i gyd yn cael eu cynnal yn Lladin.

Mae hanes yr O'Malley's yn un diddorol ac mae ei chysylltiad â'r castell yn dal i fodoli hyd heddiw, gyda darlun ohoni gan yr arlunydd Americanaidd, Cleeve Miller, i'w weld ym mar y gwesty o hyd.

Tua diwedd y 1700au fe godwyd yr adeilad presennol fel tafarn, ac wedyn, yn 1813, adnewyddwyd yr adeilad unwaith eto gan deulu'r Martins. Yno, yn 1820, yr aeth Richard Martin - yr Aelod Seneddol dros

y rhan yma o Iwerddon, i fyw. Mae'n enwog am mai fo oedd awdur y ddeddf, Gwrth-Greulondeb i Anifeilaid, a gyflwynwyd i'r Tŷ Cyffredin yn 1822 - a thrwy i'r ddeddf yma ddod i rym fe sefydlwyd yr RSPCA. Dyma'r rheswm pam mae'n cael ei gofio hyd heddiw fel 'Humanity Dick'. Mae llawer enw arall, wrth gwrs, ond efallai mwy am hynny yn y dyfodol!

Bu i'r teulu Martin fyw yn Ballynahinch hyd at oddeutu 1850, pan fu'n rhaid gwerthu oherwydd dyledion, ac maent yn dal i ddweud mai'r rheswm am rheiny oedd fod y teulu wedi gwario eu hasedau yn rhoi cymorth i drigolion y stad dros gyfnod y newyn mawr. Cryn dipyn o wahaniaeth i be ddigwyddodd rhyw ychydig filltiroedd i ffwrdd, pan laddwyd rhai newynog gan dywydd garw ar eu ffordd, yn waglaw, o'r Delphi am eu cartrefi yn Louisburgh.

Bu llawer o fynd a dod yma hyd at 1924 pan brynwyd y Castell a'r stad. Yn bwysicach na dim i'r perchennog newydd, sef y cricedwr enwog, Maharaja Jam Sahib o Nawanger, neu fel yr adabyddir ef yn well - Ranji, Tywysog y Cricedwyr - oedd y pysgota! Fo fu'n gyfrifol am ddatblygu'r afon trwy greu mynediad i'r pyllau ac adeiladu safleoedd i allu pysgota dros y mannau gorau. Mae ei waith yn sefyll ac yn dal i gael ei ddefnyddio'n helaeth hyd heddiw.

Mae'r trigolion yn dal i gyfeirio at ei garedigrwydd a'i gyfeillgarwch. Sonir fel y byddai'n cyrraedd ar y trên pob dechrau Mehefin ac wedi trefnu fod deg car newydd sbon yn ei ddisgwyl. Wrth ymadael yn ôl am yr India ym mis Hydref byddai'n rhoi y ceir i gyd fel anrhegion i'r ardalwyr.

I'r cricedwyr yn ein mysg, dywedir mai dim ond W. G. Grace oedd yn well cricedwr na Ranji, ac roedd y ddau yn chwarae i'r un tîm.

Bu Ranji farw ar 1 Ebrill 1932, ac yn y blynyddoedd a ddilynodd bu i'r castell newid dwylo nifer o weithiau, gyda'r perchnogion presennol yn cymryd drosodd yn 1978.

Fel y clywais ddweud - mae Ballynahinch wedi gweld llawer o newid ers dyddiau ffyrnig yr

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minalt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

LLONGYFARCHIADAU i Miss Sylvia Pitts ar ei phriodas â Mr Roland Williams, 6 Bro Elidir. Bu i'r ddau briodi ar ddiwrnod Sant Ffolant. Pob bendith a hapusrwydd ichi i'r dyfodol.

DISGYN. Rai wythnosau yn ôl syrthiodd Mrs Alive Thomas, 1 Bro Elidir, yn y tŷ ond, yn ffodus, ni fu iddi frifo. Er mwyn iddi gael dod ati ei hun mae yn cartrefu dros dro yng Nghartref Plas Pengwaith, Llanberis. Gobeithio y cawn ei gweld adref yn reit fuan. Brysiwch wella, Mrs Thomas, yr ydym yn eich colli yma yn Ninorwig.

CLWB ORWIG. Cyfarfu'r aelodau yng Nghanolfan Blue Peris am y tro cyntaf yn 2007. Croesawyd pawb gan y Llywydd, John Cantrell, a dymunodd Flwyddyn Newydd Dda i'r holl aelodau. Cafwyd ar ddeall mai'r swm terfynol a gasglwyd gan y Clwb tuag at Ysgol Pendarar oedd £460.

Gofynnwyd i'r aelodau enwi achos arall i'w gefnogi yn ystod 2007 ac enwyd Grŵp Osteoporosis Gwynedd a Môn. Cytunwyd i'w cefnogi hwy gan fod rhai o aelodau'r Clwb yn dioddef o'r anhwylder. Trafodwyd hefyd deithiau ac ymweliadau y gellid eu cael yn ystod y misoedd i ddod.

Testun diolch a llawenydd oedd deall fod rhodd o £100 wedi ei chyfrannu i'r Clwb gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen.

Rhoddwyd y te a gwobrau'r raffl gan John a Rose Cantrell a

rhoddwyd gwobrau eraill gan Kathleen Davies a Betty Bower. Diolchwyd i Martin a Glenys am eu rhoddion hwythau o ffrwythau a llysiau.

MARWOLAETH. Ar ddydd Llun, 12 Chwefror, brawychwyd yr ardal gyfan pan ddaeth y newydd trist am farwolaeth Richard Trefor Pritchard, Pen Dyffryn, yn 58 mlwydd oed. Yr oedd Richard yn fachgen tawel iawn ac wedi brwydro'n galed hefo'i unigrywdd ar ôl colli ei rieni rhyw ychydig dros dair blynedd yn ôl. Yr oedd wedi ei eni a'i fagu yma yn Ninorwig ac yn fawr ei barch gan bawb yn yr ardal.

Bu ei angladd yn Eglwys Crist, Llandinorwig ar ddydd Llun, 11 Chwefror. Roedd yr eglwys yn llawn a llawer o blant yr ardal wedi cymryd amser o'u gwaith i dalu'r gymwynas olaf iddo. Braff iawn oedd eu gweld yno.

Rhoddwyd ei weddillion hefo'i dad a'i fam ym mynwent yr Eglwys. Cymerwyd y gwasanaeth gan Ficer y Plwyf, sef y Parch Robert Townsend, gyda chynorthwyr'r Parch Evan Trevor Jones. Cydymdeimlwn yn fawr gyda'r holl deulu yn eu galar a'u hiraeth. Pob bendith arnynt a boed Duw yn agos atynt yn y dyddiau tywyll yma.

Daeth hanes yr hen ysgol ym Mrynrefail i law gan Mrs Elizabeth Lewis, Bryn Sardis, Dinorwig (gynt). Mae hi'n byw yn Awstralia ers blynyddoedd bellach.



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch

â **Gomer Roberts**

Ffôn : **01286 870462**

Symudol : **07962 712368**

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:

**WILLIAM SELWYN • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY**

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

O'Flahertys, dros 700 mlynedd yn ôl. Mae wedi bod yn gartref i lawer o unigolion mawreddog a charedig ac mae wedi gweld caledi - yn ystod y newyn mawr o 1847 roedd wedi rhoi cysgod i'r newynog. Mae wedi gweld crandrydd a phartion hacl, ond er popeth mae wedi gorfod ei wynebu, mae'n dal i fod yn lle bywiog braf.

Gwnewch ymdrech i ymweld, rwy'n gobeithio cael iechyd i fynd unwaith eto at ddiwedd Hydref eleni.

HUW PRICE HUGHES

RHODDION

£25: Dicnw, Cwm-y-glo.

£20: Elaine Williams, Llwyfor, Llanrug.

£10: Ellen Burke, Arosfa, Cacathro; Mrs Mary Davies, 9 Llys y Gwynt, Penisarwaun; Gwyn Antur ac Ellen, Llanrug.

£5: Ann Jones, Stryd Newton, Llanberis; Alice a John Jones, Beddgelert.

£3: Teulu Eryri Wen, Waunfawr.

CHWARAEON

Gorau Chwarae, Cyd-chwarae

'Top games, top refs,' fyddai'r grieralstwm. Fel ym mhob man arall byddai chwaraewyr ardal yr *Eco* yn gwybod pa mor bell y gallent herio'r 'dyn mewn du'. Byddai rhai dyfarnwyr yn llac iawn a gallai hyn arwain at 'ryfel cartre' o gêm. Yr oedd y gair 'parch' yn allweddol, ac yn aml byddai mwy o barch tuag at y dyfarnwyr hynny oedd yn gyn-chwaraewyr. Yn fy nyddiau cynnar cofiaf Gwilym Owen, Gwilym Hughes a Huw John Hughes (Pili Palas) fel tri dyfarnwr teg, cyson a chadarn. Hwyl yn aml fyddai'n cael y 'top games'. Cofiaf Gwilym Owen yn dyfarnu Llechid v Bethesda ar y Sadwrn cyn y 'Dolig, ac ar Wyl San Steffan yn cymryd gofal o gêm ddarbi dinas Sheffield.

Ysgwn i faint ohonoch chi, gyn-chwaraewyr, gafodd y 'Come here, young man!' gan yr unigryw Mr Mills o Fae Colwyn. Ie, Mr. cofiwch! Cafwyn cwyn yn ddiweddar fod dyfarnwr yn uwch gynghrair Lloegr wedi rhegi ar y chwaraewyr. Roedd ambell un y ffordd yma felly, hefyd!

Ar hyn o bryd mae dyfarnwyr ar bob lefel dan lach y cefnogwyr. Ar y lefel uchaf, cafwyd cwyn pan mae 'prif ddyfarnwr' yn rheoli gemau mewn cynghreiriau is. Mae rhai o'r rheolwyr - Dave Jones, Caerdydd yn eu mysg - yn beirniadu agwedd 'ceiliog dandi' rhai o'r prif ddyfarnwyr.

Ar ein lefel lleol bu cryn gynnydd yng nghyfanswm y cardiau melyn a choch a ddangoswyd y tymor yma. Mwy pryderus yw'r cynnydd sylweddol yn y cynghreiriau ieuencid. Un gŵyn gynyddol gan rai chwaraewyr yw eu bod wedi eu bwcio am regi. Dyma wir broblem. Mae'r mwyafrif yn credu fod iaith 'aflednais' yn dderbyniol ar y maes erbyn hyn: 'Fel hyn 'da ni'n siarad yn naturiol.'

Mae hyn yn deillio o anghysondeb y dyfarnwyr. Mae'n rhaid i'r awdurdodau ddweud yn bendant a yw rhegi diangen yn torri rheolau 'ungentlemanly conduct'. Nid oes pwynt cael rheol os na ellir ei gweithredu! Pan fyddaf yn dyfarnu gêm ieuencid heddiw, byddaf yn cosbi rhegi diangen ac yn fuan iawn mae'r broblem yn lleihau. Os bydd unrhyw reolwr yn gwrthwynebu fy null i o ddyfarnu y rheol hon yna byddaf yn gwrthod y cynnig ncsaf a ddaw i ddyfarnu ei dîm.

Gwaith unig iawn yw dyfarnu, yn enwedig yn y cynghreiriau is ac yn fwy anodd byth pan nad yw'r chwaraewyr yn barod i gynorthwyo. Tynnaf fy het i unrhyw un sy'n barod i roi

pnawn Sadwrn i fyny am dâl pitw iawn.

Os caf orffen y llith yma drwy roddi awgrym i rai o'r dyfarnwyr lleol, a hyn ar sail beth rwyf wedi ei weld yn ddiweddar. Wedi i chi wneud penderfyniad, cadwch ato. Gair byr - bagliad, llawio, camsefyll - yna symud oddi yno'n syth. Os oes mantais, ceisio cadw'r gêm i lifo ac yna yn y toriad nesaf, cael gair â'r troseddwr neu ddangos y cerdyn. A phob tro, y chwaraewr i ddod atoch chi. Rwy'n aml yn gweld dyfarnwr, wedi dynodi trosedd, yn aros yn yr unfan yn trafod y digwyddiad. Mae hyn yn gofyn am drwbwl ac yn arafu llif y chwarae. Ambell air yn ystod y gêm - 'Gêm dda, cadwch fynd,' 'Tipyn cynt efo'r tafliaid hogia,' 'Sêf dda, goli,' ac yn y blaen. Byddwch yn rhan o fwynhad y gêm. A does dim drwg weithiau mewn mynd am beint wedi'r gêm. Mae mwy o amser i drafod fan honno!

Cadw'r Freuddwyd yn Fyw

Do, fe gefais docyn, a bûm yn y Stade de France. Ni wn y canlyniad gan fy mod yn ysgrifennu'r llith yma dri diwrnod cyn y gêm. Siomedig iawn fu'r arlwy ym Murrayfield a chryn gwestiynu cyfeiriad ac athroniaeth ein hyfforddwr cenedlaethol a hithau'n dymor pwysig Cwpan y Byd. Nid wyf yn ddigon hyddysg yn y gêm i ddadansoddi'r gwendidau, ond credaf fod gwendid yn nifer o'r chwaraewyr i 'feddwl ar eu traed'. Yn sicr, mae gormod o ddibyniaeth ar y chwarae gosod a'r symudiadau 'parod'. Credaf fod y ddawn gynhenid yn dal yno. Bod yn ddigon dewr i arddangos hynny fydd yr her. Gobeithio y bydd gennyf lith gadarnhaol y mis nesaf a Chymru wedi trechu Ffrainc a'r 'hen elyn' yng Nghaerdydd.

Pa mor 'Junior' yw'r Junior Cup?

Yn dechnegol roeddwn yn tristáu ddechrau'r tymor nad oedd tîm o Fro'r *Eco* yn ein cynrychioli yn y Junior Cup. Dim tîm o Lanberis, Llanrug, Deiniolen na Bethel - a'r pedwar yn gyn-enillwyr! Hon oedd yn arfer bod y gwpan i'w hennill i dimau'r cynghreiriau lleol ond, eleni, daeth tro ar fyd. Gadawyd timau y cynghreiriau rhanbarthol, sef Gwynedd a Chlwyd, mewn gwagle. Fel arfer mae timau y lefel yma yn cystadlu yn y gwpan fawr - sef y N.W. Challenge Cup. Bangor, Rhyl, Caernarfon, Bae Colwyn a phawb.

Yn anffodus nid oedd rhai o'r clybiau 'mawr' yn teimlo y dylsent orfod mynd i gystadlu ar feysydd rhai o'r clybiau llai. Y 'mawr' sy'n rheoli, wrth gwrs, ac felly i gadw 'urddas' y gwpan fawr diraddiwyd timau Cynghrair Gwynedd ac uwch Gynghrair Clwyd i'r Junior Cup.

Bethel felly oedd ein hunig gynrychiolydd, ond yn anffodus colli fu eu hanes yn y rownd go gyn-derfynol. Cafwyd gêm gystadleuol draw yn Llandyrnog, ond colli wnaeth yr hogia o 3-2 wedi amser ychwanegol. Barn rhai o'r gwylywyr oedd nad oes gan Bethel sgoriwr rheolaidd yn y llinell flaen. Bu hyn yn anhawster trwy'r tymor. Mae 'canol cae' creadigol iawn ganddynt, ond heb y gallu i orffen y symudiadau. Gyda Llanystumdwy yn colli apêl ni fydd tîm o Wynedd hyd yn oed yn y rownd gyn-derfynol. Bydd Biwmares a Phentraeth yn gobeithio chwifio'r faner i Fôn. Y ffefrynnau yw'r ddau dîm o Glwyd, sef ail dimau Llandyrnog a Phrestatyn.

A ydym wedi gweld diwedd rhamant y 'clwb pentref' yn codi'r Junior ys gwn i?

Cael Cic o Gadw'n Heini

Mae sawl adroddiad yn ddiweddar yn pwyntio bys deifiol at gyflwr iechyd ymysg ieuencid. Yn yr ardal hon mae digon o gyfleon i ymuno â sawl clwb chwaraeon ac mae gennym le, fel cymdeithas, i ddiolch i'r llu o wirfoddolwyr sy'n rhoi cyfleon i'n hieuenctid.

Daw cyfle gwahanol i'r fei: yn yr ardal, sef camp y Bocsio Cic (*Kick Boxing*). Mae hon yn hen gamp ac yn anelu i gyfuno hyder, disgyblaeth, grym, parch a hunan symbyliad. Mae'r clwb sydd yn cyfarfod yn Stryd Bangor, Caernarfon (hen siop Fideos Llŷn) wedi ei anelu yn benodol at ieuencid, ac i'r rhai sy'n hollol ddibrofiad yn y gamp. Mae arwyddion bod hon yn gamp sydd'n apelio, gyda dosbarthiadau i blant o 4 oed i fyny.

Arweinydd y clwb - y Sensei - yw Chris Pritchard. Am fwy o fanylion gellir cysylltu trwy

ffonio 07974 174 768. Fe gynigir y ddwy wers gyntaf yn rhad ac am ddim!

Yno, a Cheisio Cyrraedd yno

Ie, dyna yw sefyllfa un o bêldroedwyr yr ardal, sef Marcus Orlik. Yn fachgen ieuanc addawol bu am gyfnod yn Lerpwl ac yna gyda chlybiau lleol, fel Caernarfon. Y tymor diwethaf roedd yn ymddangos ei fod wedi cael cyfle da trwy ymuno â thîm llwyddiannus y Rhys. Yn anffodus, yn yr ail dîm y byddai fel arfer. Doedd dim syndod iddo felly symud yn ddiweddar i Borthmadog, ac mae ei enw yn dechrau ymddangos ymysg y sgorwyr. Yn wir, chwaraeodd Marcus ran allweddol ym muddugoliaeth wych bois y Traeth yn erbyn y Seintiau Newydd yng Nghwpan Cymru. Taith i'r Waen Dew yng Nghaerfyrddin sy'n eu hwynebu yn y rownd nesaf - yr wyth olaf.

Mae clwb arall gan Marcus hefyd, sef Llangefni - o dan y drefn ail ffurflen - ac mae'n sgorio yno hefyd. Yr hyn sy'n ddiddorol yw fod Llangefni ar rediad da ar hyn o bryd gyda chyfle i ennill dyrchafiad i Brif Gynghrair Cymru. Dyna fuasai'n ddwbwl rhyfeddol iddo - ennill Cwpan Cymru gyda thîm o Gynghrair Cymru a helpu tîm arall i gael dyrchafiad i'r Gynghrair.



**ORIEL
CWM
Cwm y Glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU